



Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 26AIN MEHEFIN, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

**NODER**

**\*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 16 Mehefin 2023)

## **PWYLLGOR PENSIYNAU**

### **AELODAETH (9)**

#### **Plaid Cymru (4)**

Y Cynghorwyr

Iwan Huws  
Ioan Thomas

R Medwyn Hughes

Elin Hywel

#### **Annibynnol (2)**

Y Cynghorwyr

John Pughe Roberts

John Brynmor Hughes

#### **Llafur / Rhyddfrydol (1)**

Y Cynghorydd Stephen Churchman

#### **Aelodau Cyfetholedig (2)**

Cynghorydd Robin Wyn Williams  
Cynghorudd Goronwy Owen Edwards

Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2023 / 2024

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2023 / 2024

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION

5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 27 Mawrth 2023 fel rhai cywir

## 7. CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y 10 - 54 FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023

I dderbyn a nodi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2022/23.

## 8. CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2023

55 - 65

I ystyried a derbyn y Cynllun

## 9. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

66 - 82

I ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Busnes

## 10. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

83 - 109

I ystyried a nodi'r wybodaeth

## 11. FFACTORAU COST STRAEN YMDDEOLIAD CYNNAR Y GRONFA 110 - 127 BENSIWN

I ystyried a chymeradwyo'r costau straen a gynigir gan Hymans Robertson, fydd i'w defnyddio ar gyfer cyfrifo costau straen wrth symud ymlaen.

**12. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU**

128 - 137

I ystyried a derbyn yr adroddiad

## PWYLLGOR PENSIYNAU 27-03-23

### Presenoldeb:

### Cynghorwyr:

Stephen Churchman (Cadeirydd), Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes, Richard Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, John Pughe Roberts, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

### Swyddogion:

Dafydd Edwards (Cyfarwyddwr y Gronfa), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### Eraill a wahoddwyd:

Osian Richards (Bwrdd Pensiwn – arsylwi)  
Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)

#### 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

#### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

#### 3. MATERION BRYG

Dim i'w nodi

#### 4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2023 fel rhai cywir.

#### 5. DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ceisio cymeradwyaeth ffurfiol y Pwyllgor i fabwysiadu'r Strategaeth Buddsoddi. Amlygwyd ei bod yn ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi'r Datganiad Strategaeth a bod bwriad gwneud hynny ynghyd a gosod dyraniad asedau strategol newydd yn dilyn y prisiad teirblynyddod.

Ategwyd bod Kenny Taylor o Hymans Robertson eisoes wedi cyflwyno'r strategaeth i'r Pwyllgor mewn manylder mewn cyfarfod o'r Panel Buddsoddi diweddar gan amlinellu bod y strategaeth yn tanlinellu'r cydbwysedd rhwng risg a dychweliadau y mae'r gronfa ei hangen. Cyfeiriwyd at wybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru, Buddsoddi Cyfrifol, hawliau pleidleisio ac ymgysylltu - elfennau pwysig yng ngweithrediad y Gronfa.

Diolchwyd am yr adroddiad

## **PENDERFYNWYD**

### **Derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi**

#### **6. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn egluro'r gofyn sydd ar y Gronfa i adolygu'r Datganiad Strategaeth Cyllido pob tair blynedd, a hynny ar ôl y prisiad teirblynyddol. Y bwriad yw cyhoeddi'r Datganiad Strategaeth Cyllido erbyn 31 Mawrth 2023. Amlygwyd mai prif bwrpas y datganiad yw adlewyrchu ffactorau'r prisiad gan bwysu a mesur fforddiadwyedd i'r cyflogwyr gydag amcanion hylifedd hirdymor y Gronfa.

Nodwyd bod y Datganiad yn ddogfen faith a thechnegol, ac wedi ei pharatoi mewn ymgynghoriad manwl gyda Hymans a swyddogion y Gronfa. Cyfeiriwyd at y datganiad ynghyd â nifer o bolisiâu ategol. Eglurwyd bod y polisiâu ategol, yn flaenorol wedi eu hymgorffori yn y ddogfen, ond erbyn hyn, y Strategaeth yn cyfeirio at y polisiâu fel atodiadau. Bydd hyn yn eu gwneud yn haws i'w canfod / addasu, pryd bydd angen cyrraedd at wybodaeth neu ddiweddarau'r polisiâu, heb orfod addasu'r Strategaeth i gyd.

Eglurwyd, fel rhan o'r adolygiad, bod rhaid i'r awdurdod gweinyddol ymgynghori gyda phob cyflogwr sydd yn rhan o'r cynllun, gydag actiwari, ymgynghorwyr y gronfa ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn addas. Yn unol â'r gofyn, cyflwynwyd y Datganiad (drafft) i'r Bwrdd Pensiwn ac i holl gyflogwyr y Gronfa. Adroddwyd y bu ymatebion positif gan y Bwrdd a gan sawl cyflogwr, gydag ambell un yn gwerthfawrogi fod Cronfa Pensiwn Gwynedd yn cymryd golwg hir dymor ar fuddsoddi er mwyn sicrhau cyfraniadau sefydlog ac yn cefnogi'r strategaeth. Yn dilyn un awgrym gan y Bwrdd, cadarnhawyd fod buddsoddi cyfrifol bellach wedi'i amlygu o fewn y strategaethau. Nodwyd nad oedd addasiadau pellach i'r hyn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yng nghyfarfod 18ain o Ionawr 2023.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau

- Bod sylwadau'r Bwrdd i'w croesawu
- Bod mynychu cyrsiau gwybodaeth a sgiliau sylfaenol am weinyddu pensiynau yn hanfodol fel bod aelodau yn deall pwysigrwydd y gwahanol strategaethau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.
- Bod y ddogfen yn un gwerthfawr
- Croesawu ymateb gan rai o gyflogwyr mwyaf y Gronfa - GwE, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Sir Ynys Môn

## **PENDERFYNWYD**

### **Derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Cyllido**

#### **7. COFRESTR RISG**

Cyflwynwyd cofrestr risg i'r Pwyllgor gan amlygu, er bod y gofrestr wedi ei chraffu yn fanwl gan y Bwrdd Pensiwn, prif berchennog y gofrestr, mai cyfrifoldeb y Pwyllgor oedd gweithredu ar rai o'r camau yn y gofrestr, gan ddeall y risgiau perthnasol sydd i'r Gronfa Bensiwn. Adroddwyd, yn dilyn nifer o newidiadau diweddar ym myd pensiynau, bod y gofrestr wedi cael ei hadolygu'n fanwl yn ddiweddar lle addaswyd rhai sgoriau, cyflwyno risgiau newydd ac archifo rhai risgiau hanesyddol / amherthnasol. Ategwyd bod y gofrestr yn ddogfen weithredol ac er bod rhai materion tu hwnt i allu'r Gronfa bod modd rheoli materion eraill drwy'r camau gweithredu sydd wedi eu hadnabod.

Diolchwyd am yr adroddiad a chrosawyd adolygiad manwl o'r gofrestr

## **PENDERFYNWYD:**

### **Derbyn a nodi'r wybodaeth**

## **8. ADRODDIAD PRISIAD Y GRONFA BENSIWN**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, adroddiad prisiad (drafft). Comisiynwyd Hymans Robertson i gynnal prisiad o Gronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2022. Eglurwyd mai pwrpas y prisiad, sydd yn cael ei gynnal bob tair blynedd, yw sicrhau bod gan y Gronfa gynllun cyfrannu a strategaeth fuddsoddi a fydd yn cyflawni amcanion y Datganiad Strategaeth Gyllido.

Amlygwyd bodlonwydd bod y Gronfa yn cymryd golwg hir dymor ar fuddsoddi gan leihau lefel cyfraniadau ond dim yn peryglu lefelau i'r dyfodol. Cyfeiriwyd at lefelau cyfraddau pob cyflogwr sydd yn amrywio fesul cyflogwr - y gyfradd gyfrannu yn adlewyrchu aelodaeth a phrofiadau cyflogwyr.

Nododd Cyfarwyddwr y Gronfa bod yr adroddiadau yn cadarnhau bod y sefyllfa yn un gadarn a chalonogol, ac yn gosod sylfaen dda i'r tair blynedd nesaf.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau

- Llawer o waith wedi ei gwblhau mewn cyfnod heriol
- Gwaith craidd wedi bod yn sail i adroddiad manwl a chlr
- Yr adroddiad wedi ei gyflwyno yn dda
- Bod penderfyniadau doeth wedi cael effaith gadarnhaol ar y sefyllfa
- Ategu diolch i actiwari y Gronfa, Hymans Robertson am eu cyfraniad

## **PENDERFYNWYD**

- **Diolch i swyddogion am gyflwyno gwybodaeth mewn cyfnod heriol.**
- **Diolch i Hymans Robertson am eu cyngor a'u cefnogaeth**
- **Derbyn a nodi'r wybodaeth**

## **9. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2023/24, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2023/24 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 2 Mawrth 2023.

Eglurwyd, ar hyn o bryd, bod yr holl arian sydd dros ben yn y Gronfa yn cael ei gronni gyda balansau ariannol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Strategaeth Rheolaeth Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Nodwyd, yn unol â chyngor cyfreithiol, mai buddiol yw cymeradwyo'r ymarfer yn flynyddol gan geisio dychweliadau o fewn ffiniau diogel a lleihau risgiau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau

- Bod yr adroddiad bellach yn eitem gyson ar raglen waith y Pwyllgor
- Bod y trefniant eisoes wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn
- Mai annoeth fyddai cadw arian ar wahân - gwneud synnwyr cadw at y trefniant

#### **PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth**
- **Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys am 2023/24, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn**
- **Gwneud cais i'r Cyngor i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2023 ymlaen.**

### **10. ADRODDIAD RHAGAMCANION MODELU LLIF ARIAN**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi mewn ymateb i'r angen i ragamcanu llif arian disgwylidig y Gronfa dros gyfnod hirdymor, fel bod modd deall sensitifrwydd sefyllfa llif arian net y Gronfa mewn nifer o senarios chwyddiant.

Tynnwyd sylw at y mathau o incwm a'r gwariant rheolaidd sydd yn digwydd o fewn y Gronfa, ynghyd a sefyllfa llif arian y blynnyddoedd diweddar oedd yn amlygu sefyllfa bositif.

Cyfeiriwyd at adroddiad a ddarparwyd gan Hymans Robertson yn asesu'r sefyllfa ynghyd a *scenario analysis* yr oeddynt wedi ei wneud i ganfod pryd byddai'r Gronfa'n debygol o fod mewn sefyllfa llif arian negyddol. Ystyriwyd tair sefyllfa wahanol, a daethpwyd i'r canlyniad mai'r flwyddyn gyntaf y gall y Gronfa wynebu sefyllfa negyddol yw 2029 a hynny pe byddai chwyddiant yn parhau ar lefel uchel iawn. Nodwyd bod hyn yn well sefyllfa na mwyafrif o gronfeydd eraill CPLIL ac yn newyddion da i'r Gronfa, er yn llwyr ymwybodol bod rhaid bod yn wylidwrus o'r risgiau (megis monitro newid mewn aelodaeth, ystyried chwyddiant a chadw'r llif arian mewn cof wrth ystyried y strategaeth fuddsoddi).

Diolchwyd am yr adroddiad a gwerthfawrogwyd yr ymarferiad gan Hymans Robertson.

#### **PENDERFYNWYD**

##### **Derbyn a nodi'r wybodaeth**

### **11. POLISI ADRODD AR DOR-CYFRAITH**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn mynegi, fel rhan o'r prosiect Llywodraethu Da, ei bod yn ofynnol i'r Gronfa gynhyrchu polisi mewn perthynas â Chofnodi Torri'r Gyfraith (ym maes pensiynau yn unig). Nodwyd bod y polisi wedi'i ddrafftio gan Hymans Robertson ar y cyd gyda swyddogion y Gronfa, a bu ymgynghoriad gyda Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd. Ategwyd bod y Bwrdd Pensiwn hefyd wedi craffu cynnwys y polisi ac wedi cynnig mân sylwadau.

Amlygwyd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer darganfod, monitro a, lle bo'n briodol, adrodd am achosion o dorri'r gyfraith fel sy'n ofynnol yn Neddf Pensiynau 2004 ac y manylir arnynt yng Nghod Ymarfer Rhif 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau - Llywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus. Er nad oedd achos o bryder, nodwyd bod y polisi yn rhan o'r gwaith paratoi i sicrhau trefn a sicrwydd mewn unrhyw sefyllfa o dor-cyfraith pensiynau.



Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau

- Bod y polisi yn amlygu'r priif swyddogaethau a'r cyfrifoldebau yn glir
- Bod swyddogaethau Cynghorwyr hefyd wedi cael ei nodi
- Bod y ddogfen yn amlinellu cyfrifoldebau mewn modd deallus
- Croesawu bod y Swyddog Monitro a'r Bwrdd Pensiwn yn cymeradwyo'r polisi

## **PENDERFYNWYD**

### **Derbyn a chymeradwyo'r Polisi Adrodd ar Dor-Cyfraith**

#### **12. CYNLLUN HYFFORDDIANT**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn rhoi crynodeb o'r hyfforddiant a gyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod 2022/23 ynghyd a chais i gymeradwyo Cynllun Hyfforddiant 2023/24 ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Ystyriwyd bod Cynllun Hyfforddiant 2022/23 wedi bod yn llwyddiannus a diolchwyd i'r Aelodau am fynychu'r amryw gynadleddau a sesiynau hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) - ystyriwyd bod yr holl sesiynau wedi bod yn ddefnyddiol ac amserol iawn. Ategwyd bod Cynllun Hyfforddiant 2023/24 yn dilyn yr un drefn a'r flwyddyn flaenorol ac y bydd pob ymgais yn cael ei wneud i adnabod anghenion hyfforddi perthnasol a phriodol - gwahoddiadau i'w hanfon allan i Aelodau yn fuan.

Diolchwyd am yr adroddiad a nododd y Cadeirydd bod sesiynau PPC wedi bod yn dda iawn ac yn agored i unrhyw Aelod - yn werth cymryd rhan ynddynt.

## **PENDERFYNWYD**

### **Derbyn diweddariad am lwyddiant Rhaglen Hyfforddiant 2022 /23 a chymeradwyo Cynllun Hyfforddiant 2023/24**

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben 14:50

# Eitem 7

CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	26 MEHEFIN 2023
TEITL	CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023
PWRPAS	Cyflwyno a nodi – <ul style="list-style-type: none"><li>Datganiad o'r Cyfrifon Drafft</li></ul>
ARGYMHELLIAD	Derbyn y wybodaeth
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, sy'n darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Y ddogfen yn Atodiad A yw'r Datganiadau Cyfrifon drafft yn y fformat statudol.

## 2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU

Bydd cyfrifon drafft yma yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru. Mae'n bosibl y bydd angen rhai newidiadau cyn cyflwyno fersiwn derfynol i'w chymeradwyo.

## 3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau dderbyn a nodi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2022/23.

# **Cronfa Bensiwn Gwynedd**

## **DATGANIAD O'R CYFRIFON 2022/23**

## **ADRODDIAD NARATIF**

### **Rhagarweiniad**

Mae cyfrifon a nodiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2022/23 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 5 i 43.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys Cyfrif a Datganiad Asedau Net Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiâu Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn a'r nodiadau ynghlwm yn crynhoi trafodion ariannol ac asedau net ar gyfer darparu pensiynau a buddiannau taladwy eraill ar gyfer cyn-weithwyr holl gyflogwyr y Gronfa, gan gynnwys Cyngorau Ynys Môn, Conwy a Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cartrefi Conwy, Adra, amryw o gyngorau tref a chymuned, cyrff ar yr atodlen a chyrrff a ganiateir.

Mae Datganiad o'r Cyfrifon a gwybodaeth pellach ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd sef [www.cronfabensiwngwynedd.cymru](http://www.cronfabensiwngwynedd.cymru).

Mae gan y Gronfa ddau ddatganiad pwysig sydd yn gosod allan strategaethau er mwyn sicrhau bod y pensiynau wedi cael eu cyllido nawr ac yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Datganiad Strategaeth Gyllido – mae'r datganiad yn gosod allan strategaeth penodol i'r gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd orau wrth symud ymlaen. Caiff ei adolygu bob tair mlynedd yn dilyn y prisiad actiwaraidd ac mae'n cynnwys cyfraddau unigol i bob cyflogwr ar gyfer y cyfnod dilynol.
- Datganiad Strategaeth Buddsoddi – mae'r datganiad yn gosod y math o fuddsoddiadau a therfynau llydan ar gyfer bob math o buddsoddiad.

Mae'r ddau ddatganiad yma ar gael ar safle we y Gronfa o dan yr adran buddsoddiadau.

Mae'n ofynnol i gael Prisiad Actiwaraidd bob tair mlynedd er mwyn sefydlu'r lefel asedau ar gael er mwyn talu pensiynau nawr ac yn y dyfodol. Y prisiad diweddaraf yw fel ar 31 Mawrth 2022 a gwneir unrhyw newidiadau i gyfraniadau y cyflogwyr o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Delyth Jones-Thomas  
Rheolwr Buddsoddi  
01286 679128

Adran Cyllid  
Cyngor Gwynedd  
Swyddfa'r Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

Mae yn rhan o bolisi'r Gronfa i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Gronfa. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Gronfa Bensiwn ar yr adeg briodol.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

### CYFRIFOLDEB Y GRONFA BENSIWN

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu (yn effeithiol yr ymddiriedolwr) ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

26 Mehefin 2023

**Y Cyngorydd Stephen Churchman**

**Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau**

### CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus; ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

### TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2023, ac incwm a gwariant y Gronfa Bensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



**Dewi Morgan CPFA**  
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

16 Mehefin 2023

# CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

## CYFRIF Y GRONFA

31 Mawrth 2022 £'000	Nodiadau	31 Mawrth 2023 £'000
<b>Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Gronfa</b>		
82,971	Cyfraniadau 7	89,762
4	Incwm arall 8	4
2,664	Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill 9	6,773
<b>85,639</b>		<b>96,539</b>
(66,979)	Buddion 10	(72,108)
(3,683)	Taliadau i ac oherwydd ymadawyr 11	(3,121)
<b>(70,662)</b>		<b>(75,229)</b>
<b>14,977</b>	<b>Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net yn sgil ymwneud ag aelodau</b>	<b>21,310</b>
(16,525)	Costau Rheoli 12	(12,729)
<b>(1,548)</b>	<b>Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net gan gynnwys costau rheoli'r gronfa</b>	<b>8,581</b>
<b>Enillion ar fuddsoddiadau</b>		
26,170	Incwm Buddsoddi 13	30,940
223,010	Elw a cholledion wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad 14	(53,153)
<b>249,180</b>	<b>Enillion net ar fuddsoddiadau</b>	<b>(22,213)</b>
<b>247,632</b>	<b>Cynnydd/ (Lleihad) yn yr asedau net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn</b>	<b>(13,632)</b>
<b>2,528,129</b>	<b>Asedau net agoriadol y gronfa</b>	<b>2,775,761</b>
<b>2,775,761</b>	<b>Asedau net terfynol y gronfa</b>	<b>2,762,129</b>

Mae'r nodiadau ar tudalennau 7 i 43 yn rhan o'r Datganiadau Cyllidol

## DATGANIAD ASED AU NET

31 Mawrth 2022 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2023 £'000
2,761,271	Asedau buddsoddi	14	2,742,933
303	Adneuon arian parod	14	963
(285)	Ymrwymadau buddsoddi	14	(960)
<b>2,761,289</b>	<b>Cyfanswm buddsoddiadau net</b>		<b>2,742,936</b>
17,828	Asedau cyfredol	20	22,454
(3,356)	Ymrwymadau cyfredol	21	(3,261)
<b>2,775,761</b>	<b>Asedau net y gronfa ar gael i ariannu buddion ar ddiwedd y cyfnod adrodd</b>		<b>2,762,129</b>

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymadau'r Gronfa ym mhriadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2022) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa yn gallu cwrdd ag ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawyd yn Nodyn 19.



# **NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD**

## **NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd.

### **a) Cyffredinol**

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae'n gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig cyfrannol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrrff ar yr atodlen, cyrrff a benderfynir a chyrrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r Gronfa'n cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

### **b) Aelodaeth**

Mae bod yn aelod o'r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu gymuned. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLIL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa dan gyntdeb mynediad rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrrff a ganiateir yn cynnwys cyrrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

## NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

<b>Cyrff ar yr Atodlen</b>	
Cyngor Gwynedd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ysgol Bryn Elan
Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Emrys ap Iwan
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Ysgol Pen y Bryn
Grŵp Llandrillo – Menai	Ysgol Uwchradd Eirias
GwE	Asiant Cefnfyrdde Gogledd a Chanolbarth Cymru
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	
<b>Cyrff a Benderfynir</b>	
Cyngor Cymuned Llanllyfni	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyngor Dinas Bangor	Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Tref Abergele	Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Tref Bae Colwyn	Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Tref Biwmares	Cyngor Tref Towyn a Bae Cinnel
Cyngor Tref Caergybi	Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Tref Caernarfon	Cyngor Tref Conwy
Cyngor Tref Llanfairfechan	Cyngor Tref Llanrwst (ymuno 26/09/2022)
<b>Cyrff a Ganiateir</b>	
Addysg Oedolion Cymru	Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Adferiad Recovery	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
Cydbwyllgor Claddu Caergybi	Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin
Cwmni'r Frân Wen	Mantell Gwynedd
Menter Môn	Medrwn Môn
Ynysmaengwyn	
<b>Cyrff Cymunedol a Ganiateir</b>	
Cartrefi Conwy	Adra
Byw'n Iach	
<b>Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir</b>	
ABM Catering	A E & A T Lewis
Kingdom Services Group	Chartwells

## NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Nodir manylion aelodaeth isod:

	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023
Nifer y cyflogwyr	46	47
<b>Nifer y gweithwyr yn y cynllun</b>		
Cyngor Sir	14,691	15,246
Cyflogwyr eraill	3,966	4,058
<b>Cyfanswm</b>	<b>18,657</b>	<b>19,304</b>
<b>Nifer y pensiynwyr</b>		
Cyngor Sir	9,281	9,647
Cyflogwyr eraill	2,017	2,133
<b>Cyfanswm</b>	<b>11,298</b>	<b>11,780</b>
<b>Pensiynwyr gohiriedig</b>		
Cyngor Sir	10,512	11,019
Cyflogwyr eraill	2,028	2,141
<b>Cyfanswm</b>	<b>12,540</b>	<b>13,160</b>
<b>Buddion heb eu hawlio</b>		
Cyngor Sir	2,142	2,595
Cyflogwyr eraill	283	378
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,425</b>	<b>2,973</b>
<b>Ymadawyr heb benderfynu</b>		
Cyngor Sir	5,455	4,480
Cyflogwyr eraill	737	513
<b>Cyfanswm</b>	<b>6,192</b>	<b>4,993</b>
<b>Cyfanswm yr aelodau yn y cynllun pensiwn</b>	<b>51,112</b>	<b>52,210</b>

### c) Cyllid

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y Gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac roeddent yn amrywio o 2.75% i 12.5% o dâl pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Gosodir cyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar brisiadau actiwaraid a gynhelir pob tair blynedd. Roedd y prisiad perthnasol ar gyfer y flwyddyn yma ar 31 Mawrth 2019. Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn amrywio o 7.7% i 36.1% o dâl pensiynadwy.

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

### d) Buddion

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

	<b>Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008</b>	<b>Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008</b>
<b>Pensiwn</b>	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol.	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol.
<b>Lwmp swm</b>	Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

O 1 Ebrill 2014, daeth y Gronfa yn gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa. Gweler y crynodeb isod:

	<b>Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014</b>
<b>Pensiwn</b>	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi'i adbriso (CARE)
<b>Lwmp Swm</b>	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

Caiff pensiwn cronedig ei gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynauanabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

## NODYN 2 – SAIL PARATOI

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2023. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Còd Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae paragraff 3.3.1.2 o'r Cod yn gofyn i unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadau eto gael ei ddatgan. Nid oes safonau cyfrifyddu o'r fath wedi'u nodi ar gyfer 2022/23.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, na gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol. Gweler gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifo Genedlaethol (SCC) 19, yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

## **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIŌAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL**

### **Cyfrif y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw**

#### **a) Incwm o Gyfraniadau**

Cyfrifir cyfraniadau arferol ar sail groniadol fel a ganlyn:

- Mae cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn cael eu gosod yn unol â rheoliadau CPLIL, gan ddefnyddio cyfraddau canrannol cyffredin ar gyfer pob cynllun sy'n codi yn ôl tâl pensiynadwy.
- Mae cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu gosod ar y gyfradd ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Mae cyfraniadau cyflogwyr i ddiffygion cronfeydd yn cael eu cyfrif ar y dyddiadau y maent yn daladwy dan atodlen cyfraniadau a gosodwyd gan actwari y Gronfa, neu wrth eu derbyn os yw hynny'n digwydd cyn y dyddiad maent yn ddyledus.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus nes flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

#### **b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill**

Mae trosglwyddiadau i mewn ac allan yn ymwneud ag aelodau sydd wedi ymuno neu adael y gronfa.

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn/ allan yn cael eu cyfrifo pan gânt eu derbyn neu eu talu. Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (gweler Nodyn 9).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

#### **c) Incwm buddsoddi**

##### **i) Incwm llog**

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol ar dyddiad caffael neu fan cychwyn.

##### **ii) Incwm difidend**

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cyn-ddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

##### **iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo**

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

##### **iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad**

Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farnach fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

## **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIÄU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)**

### **Cyfrif y Gronfa – eitemau sy'n creu costau**

#### **d) Buddion sy'n daladwy**

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymadau cyfredol, ar yr amod bod y taliad wedi'i gymeradwyo.

#### **e) Costau rheoli**

Mae'r gronfa'n datgelu ei chost reoli yn unol â chanllawiau CIPFA, *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Expenses (2016)*, fel y dangosir isod. Codir pob eitem o wariant ar y gronfa ar sail gronol fel a ganlyn:

#### **Costau gweinyddol**

Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiwnau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa. Mae ad-daliadau'r Cyngor am gostau rheoli, llety a gorbenion eraill hefyd yn cael eu cyfrif fel costau gweinyddol y gronfa.

#### **Costau arolygu a llywodraethu**

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â goruchwyllo a llywodraethu yn cael eu nodi ar wahân, eu dosrannu i'r gweithgaredd hwn a'u codi fel costau i'r gronfa.

#### **Costau rheoli buddsoddiadau**

Codir ffioedd buddsoddi yn uniongyrchol ar y gronfa fel rhan o gostau rheoli ac ni chânt eu cynnwys yn yr enillion a adroddwyd ar fuddsoddiadau, na'u netio oddi wrthynt. Pan fydd ffioedd yn cael eu netio oddi ar enillion gan reolwyr buddsoddi, mae'r costau hyn yn cael eu grosio i fyny i gynyddu'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarcheidwad allanol wedi'u nodi yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau sydd o dan eu rheolaeth ac felly'n cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid.

Mae costau trafodion yn ymwneud a prynu a gwerthu asedau'r cronfeydd ac yn cael eu egluro yn y nodiadau i'r cyfrifon.

#### **f) Treth**

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r Gronfa fel mae'n codi.

## **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)**

### **Datganiad asedau net**

#### **g) Asedau ariannol**

Mae'r holl asedau buddsoddi wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. Cydnabyddir unrhyw enillion neu gollodion ar werthiannau buddsoddi sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ased yng nghyfrif y gronfa.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel sy'n ymddangos yn y datganiad asedau net wedi'u pennu ar werth teg yn unol â gofyniad y Cod ac SAARh 13 (gweler nodyn 14). Ar gyfer ddibenion datgelu lefelau hierarchaeth gwerth teg, mae'r gronfa wedi mabwysiadu'r canllawiau dosbarthu a argymhellir yn y Canllawiau Ymarferol ar Ddatgeliadau Buddsoddi (PRAG/ Investment Association, 2016).

#### **h) Trafodion arian tramor**

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balansau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian tramor, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

#### **i) Arian a chywerthoedd arian**

Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuon ar alw ac mae'n cynnwys symiau a ddelir gan reolwyr allanol y gronfa. Mae'r holl falansau arian parod yn fuddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gallir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

#### **j) Ymrwymadau ariannol**

Cydnabyddir ymrwymiad ariannol yn y datganiad ased net ar y dyddiad y daw'r gronfa yn gyfreithiol gyfrifol am yr ymrwymiad hwnnw. Mae'r gronfa'n cydnabod ymrwymadau ariannol sy'n ymwneud â masnachu buddsoddiadau ar werth teg ac mae unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad rhwng dyddiad y contract, dyddiad diwedd y flwyddyn a'r dyddiad setliad yny pen draw yn cael eu cydnabod yng nghyfrif y gronfa fel rhan o'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ymrwymadau ariannol eraill sy'n cael eu dosbarthu fel cost wedi'i amorteiddio yn cael eu cario yn y datganiad asedau net ar werth y brifswm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth bob flwyddyn. Mae unrhyw log sy'n ddyledus ond heb ei dalu eto yn cael ei gyfrif ar sail cronadau ac mae'n cael ei gynnwys mewn costau gweinyddol.

#### **k) Gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo**

Asesir gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo teirblynyddol gan actiwari'r Gronfa yn unol â gofynion SCCI9 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir o dan y Cod, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net (Nodyn 19).

## **NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)**

### **l) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, Utmost Life a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag Adran 4(1)(b) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ond fe'u datgelir er gwybodaeth yn unig yn Nodyn 22.

### **m) Asedau dibynnol ac ymrwymadau dibynnol**

Mae ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd gan arwain at ased posibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae ymrwymiad dibynnol yncodi pan fydd digwyddiad cyn diwedd y flwyddyn wedi creu rhwymedigaeth ariannol bosibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Gall ymrwymadau dibynnol godi hefyd pan nad yw'n bosib ar y Fantolen fesur gwerth y rhwymedigaeth ariannol yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir asedau ac ymrwymadau dibynnol yn y datganiad asedau net ond fe'u datgelir trwy naratif yn y nodiadau.

## **NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISIAU CYFRIFO**

### **Buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd heb eu dyfynnu**

Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu ac isadeiledd gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo SAARh. Roedd gwerth y gwarantiau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2023 yn £234.2 miliwn (£226.1 miliwn ar 31 Mawrth 2022).

### **Ymrwymadau'r gronfa pensiwn**

Cyfrifir ymrwymadau'r gronfa pensiwn pob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag SCCI9. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 18. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.



## NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY’N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae gofyn i’r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy’n effeithio ar y symiau yr adroddir arnynt. Amcangyfrifir a rhagdybiaethir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a disgwyliadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai’r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i’r rhagdybiaethau a’r amcangyfrifon.

Mae’r eitemau yn y datganiad asedau net ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw’r gwir ganlyniadau’n wahanol i’r rhagdybiaethau
Gwerth cyfredol actiwaraid y buddion ymddeol a sydd wedi’u haddo (Nodyn 19)	Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau’n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy’n ymwneud â’r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, codiadau cyflog, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaeth ac enillion ar asedau’r gronfa. Cyflogir Hymans Robertson i roi cyngor arbenigol i’r gronfa am y rhagdybiaethau i’w defnyddio.	Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar ymrwymadau pensiynau net. Fodd bynnag, mae’r rhagdybiaethau’n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth.
Ecwiti preifat ac isadeiledd	Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn cael ei bennu’n unol âg arweiniad y <i>British Venture Capital Association</i> (Rhagfyr 2018). Nid yw’r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru’n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â’r prisiad.	Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn y datganiadau ariannol yn £234.2 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi’i nodi’n rhy isel neu’n rhy uchel yn y cyfrifon.

## NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD ADRODD

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl diwedd y flwyddyn i’w adrodd.

## NODYN 7 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY

### Yn ôl categori

2021/22		2022/23
£'000		£'000
19,703	Cyfraniadau gweithwyr	21,519
	Cyfraniadau cyflogwyr :	
63,233	• Cyfraniadau arferol	68,243
35	• Cyfraniadau adfer diffyg	0
<b>63,268</b>	<b>Cyfanswm cyfraniadau cyflogwyr</b>	<b>68,243</b>
<b>82,971</b>	<b>Cyfanswm cyfraniadau derbyniadwy</b>	<b>89,762</b>

### Yn ôl math o gyflogwr

2021/22		2022/23
£'000		£'000
27,650	Cyngor Gwynedd	29,489
50,205	Cyrff eraill ar yr atodlen	54,733
1,716	Cyrff a ganiateir	1,901
2,892	Cyrff cymunedol a ganiateir	3,087
161	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	154
313	Cyrff a benderfynir	398
34	Cronfeydd gaeedig*	0
<b>82,971</b>		<b>89,762</b>

\*Cronfeydd gaeedig - Dyma'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan Ganolfan Cyngori Ynys Môn a Chanolfan Cyngori Conwy yn ystod y flwyddyn a oedd yn arfer bod yn gyrff a ganiateir ond bellach sydd yn gronfeydd gaeedig.

## NODYN 8 – INCWM ARALL

2021/22		2022/23
£'000		£'000
2	Llog ar gyfraniadau gohiriedig	2
2	Incwm ar gyfrifo ysgariad	2
<b>4</b>		<b>4</b>

## NODYN 9 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

2021/22		2022/23
£'000		£'000
2,664	Trosglwyddiadau unigol	6,773
<b>2,664</b>		<b>6,773</b>

## NODYN 10 – BUDDION A DALWYD

### Yn ôl categori

2021/22		2022/23
£'000		£'000
52,087	Pensiynau	56,010
13,123	Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm	13,789
1,769	Buddion marwolaeth – lwmp swm	2,309
<b>66,979</b>		<b>72,108</b>

### Yn ôl math o gyflogwr

2021/22		2022/23
£'000		£'000
20,183	Cyngor Gwynedd	21,934
31,868	Cyrff eraill ar yr atodlen	34,788
1,651	Cyrff a ganiateir	1,384
1,217	Cyrff cymunedol a ganiateir	1,365
Defnyddiwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer adroddiad SCC19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn ac maent yn wahanol ar 31 Mawrth 2022 a 2023. Mae'r actiwari yn amcanu mai effaith y newid mewn tybiaethau i 31 Mawrth 2023 yw i leihau y gwerth presennol actiwaraidd o £1,422m. Amcanir mai effaith y newid mewn demograffiaeth a hirhoedledd ydi lleihau y gwerth presennol actiwaraidd o £55m.

Rhagdybiaeth	31 Mawrth 2022 %	31 Mawrth 2023 %
Cyfradd cynnydd mewn pensiwn	3.20	2.95
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	3.50	3.45
Cyfradd ddisgownt	2.70	4.75

Mae'r disgwyliad oes ar gyfer y dybiaeth hirhoedledd yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2021, gyda 10% o bwysau ar ddata 2021 (a 2020), llyfnhau safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwella tymor hir o 1.5% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwyliad oes gyfartalog yn y dyfodol i oed 65 wedi'u crynhoi isod:

	Gwryw Blynyddoedd	Benyw Blynyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	20.9	23.9
Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhriiad 2019)	21.9	25.6

Mae'r rhagdybiaethau demograffig eraill wedi ei diweddarau ers flwyddyn diwethaf ac yn unol a prisiad diweddaraf y gronfa.

Mae'r sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur rhwymedigaethau wedi'u nodi isod:

Sensitifrwydd i'r Rhagdybiaethau am y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2023	Amcan % y cynnydd mewn rhwymedigaethau	Amcan swm Ariannol £m
0.1% y.f. o gynnydd mewn chwyddiant pensiwn	2	41
0.1% y.f. o gynnydd mewn cyflog	0	7
0.1% y.f. o leihad yn y gyfradd ddisgownt	2	47
I mlynedd o gynnydd yn disgwyliad oes aelod	4	93

## NODYN 20 – ASEDAU CYFREDOL

<b>31 Mawrth 2022 £'000</b>		<b>31 Mawrth 2023 £'000</b>
483	Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr	495
1,597	Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr	1,617
1,570	Amrywiol ddyledwyr	2,050
<b>3,650</b>	<b>Cyfanswm dyledwyr</b>	<b>4,162</b>
14,178	Arian	18,292
<b>17,828</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>22,454</b>

## NODYN 21 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

<b>31 Mawrth 2022 £'000</b>		<b>31 Mawrth 2023 £'000</b>
1,697	Credydwyr amrywiol	2,078
1,659	Buddion sy'n daladwy	1,183
<b>3,356</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>3,261</b>

## NODYN 22 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

	<b>Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2022 £'000</b>	<b>Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2023 £'000</b>
Clerical Medical	4,670	4,576
Utmost Life	182	162
Standard Life	5	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,857</b>	<b>4,743</b>

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r rheolwr yma fel a ganlyn:

	<b>2021/22 £'000</b>	<b>2022/23 £'000</b>
Clerical Medical	645	797
<b>Cyfanswm</b>	<b>645</b>	<b>797</b>

## NODYN 23 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

### Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gryf rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,474,104 (£1,318,514 yn 2021/22) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r Gronfa a chyfrannodd £29.49m tuag at y Gronfa yn 2022/23 (£27.65m yn 2021/22). Ar ddiwedd y flwyddyn, £0.53m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa yn bennaf mewn perthynasâ llôg a dalwyd ar fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn a chyfraniadau ar gyfer Mawrth 2023 a £1.47m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau i'r Cyngor am y costau gweinyddol.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2022/23, derbyniodd y Gronfa log o £210,338 (£14,183 yn 2021/22) gan Gyngor Gwynedd.

### Llywodraethu

Roedd un aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2022/23 (yr aelod pwyllgor J.B. Hughes). Yn ogystal, mae aelodau'r pwyllgor S.W. Churchman, R.W. Williams, J.B. Hughes, I. Thomas, G. Edwards, J.P. Roberts a R.M. Hughes yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Roedd dau aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2022/23 (yr aelodau bwrdd H. E. Jones a S.Warnes). Yn ogystal, mae aelodau Bwrdd B. Roberts, O. Richards, H. Trainor a S. E. Parry yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

### Prif Bersonél Rheoli

Cyfarwyddwr y Gronfa a Pennaeth Cyllid (s151) yw prif bersonél rheoli'r gronfa.

Mae'r cyflog sy'n daladwy i brif bersonél rheoli y gellir ei phriodoli i'r gronfa wedi'i nodi isod:

31/03/2022 £'000		31/03/2023 £'000
7	Buddion tymor byr	38
1	Buddion ôl-gyflogaeth	7
<hr/>		<hr/>
8		45

## NODYN 24 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

	<b>Cyfanswm ymrwymadau €'000</b>	<b>Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2022 €'000</b>	<b>Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2023 €'000</b>
P.G. Direct 2006	19,224	0	0
P.G. Global Value 2006	50,000	3,477	3,477
P.G. Secondary 2008	15,000	1,960	1,960
P.G. Global Value 2011	15,000	2,096	2,096
P.G. Global Infrastructure 2012	40,000	7,019	7,019
P.G. Direct 2012	12,000	1,181	1,181
P.G. Global Value 2014	12,000	1,531	1,531
P.G. Direct Equity 2016	50,000	2,826	2,826
P.G. Global Value 2017	42,000	17,870	11,570
P.G. Global Infrastructure 2018	28,000	14,379	8,131
P.G. Direct Equity 2019	48,000	18,432	8,352
P.G. Direct Infrastructure 2020	32,000	24,800	20,320
P.G. Direct Equity V	30,000	0	30,000
<b>Cyfanswm Ewro</b>	<b>393,224</b>	<b>95,571</b>	<b>98,463</b>
	<b>\$'000</b>	<b>\$'000</b>	<b>\$'000</b>
P.G. Emerging Markets 2011	7,000	1,082	1,082
P.G. Secondary 2015	38,000	15,740	15,220
P.G. Direct Infrastructure 2015	43,600	9,598	7,640
<b>Cyfanswm Doleri</b>	<b>88,600</b>	<b>26,420</b>	<b>23,942</b>

Mae 'PG' uchod yn cyfeirio at y Partners Group, y rheolwr buddsoddi sy'n buddsoddi mewn meysydd 'amgen' (ecwiti preifat ac isadeiledd) ar ran y Gronfa.

Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn rhan ecwiti preifat y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad dros nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

## NODYN 25 - ASED AU DIBYNNOL

Mae dau o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y Gronfa ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn methu talu.

## NODYN 26 - YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ni nodwyd unrhyw ymrwymadau dibynnol.

## **NODYN 27 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU**

Nid oes unrhyw golledion yn sgil amhariadau.



CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR PENSIYNAU</b>
DYDDIAD:	<b>26 MEHEFIN 2023</b>
TEITL:	<b>CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2023</b>
PWRPAS:	<b>I dderbyn y Cynllun</b>
ARGYMHELLIAD:	<b>DERBYN Y CYNLLUN</b>
AWDUR:	<b>DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI</b>

---

## **1. CYFLWYNIAD**

Bydd archwiliad cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 31 Mawrth 2023 yn cael ei gwblhau gan Archwilio Cymru. Gweler y Cynllun Archwilio yn Atodiad 1.

## **2. CYNLLUN ARCHWILIO**

Mae'r cynllun yn nodi'r gwaith y mae'r archwilwyr yn ei wneud er mwyn cyflawni ei dyletswydd statudol gan amlygu'r prif risgiau.

## **3. ARGYMHELLIAD**

Bod y Cynllun yn cael ei dderbyn.

# Cronfa Bensiwn Gwynedd

Cynllun Archwilio Amlinellol 2023

Tud. 56

Blwyddyn archwilio:

2022–2023

Dyddiad cyhoeddi:

Mehafin 2023

Fersiwn ddrafft yw'r ddogfen hon wrth aros am drafodaethau ychwanegol gyda'r corff a archwilir ac a arolygir. Mae'n bosibl na fydd yr wybodaeth wedi'i dilysu'n llawn eto ac ni ddylid ei dosbarthu'n eang.





Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#).

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan bob un ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, pan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

Ein nodau:

## Sicrhau



pobl Cymru bod  
arian cyhoeddus yn  
cael ei reoli'n dda

## Egluro



sut mae arian  
cyhoeddus yn cael  
ei ddefnyddio i  
ddiwallu

## Ysbrydo



a grymuso'r sector  
cyhoeddus yng  
Nghymru i wella

Tud. 58

Ein huchelgeisiau:



Manteisio'n  
llawn ar ein  
persbectif  
unigryw, ein  
harbenigedd a



Cryfhau ein safle  
fel llais  
awdurdodol,  
dibynadwy  
ac annibynnol



Cynyddu ein  
hamlygrwydd,  
ein dylanwad  
a'n perthnasedd



Bod yn sefydliad  
enghreiffiol i'r  
sector cyhoeddus  
yng Nghymru a thu  
hwnt

# Cynnwys

---

Cyflwyniad	5
Ffioedd a'r tîm archwilio	6
Llinell amser archwilio	7
Tud. 59 Ansawdd archwilio	8
Atodiad 1—y newidiadau allweddol i ISA315 a'u heffaith	9

# Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Archwilio Amlinellol yn nodi fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae hefyd yn nodi manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig fy nhîm archwilio. Rwyf yn bwriadu rhannu Cynllun Archwilio Manwl yn ddiweddarach eleni ar ôl imi gwblhau fy ngwaith cynllunio. Bydd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig a'r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud.

## Fy nghyfrifoldebau archwilio

Mae'n ofynnol imi ardystio a yw datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Cronfa Bensiwn) yn 'wir ac yn deg'. Mae'r gwaith archwilio yr wyf yn ei wneud i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae hyn yn caniatáu inni ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol wrth ddarparu sicrwydd ar gyfer datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn yn gyffredinol.

Mae gen i gyfrifoldeb hefyd i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau i'r datganiadau ariannol gan etholwyr lleol.

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy mwriad yw nodi camddatganiadau sylweddol, hynny yw, y rhai hynny a all gamarwain darlennydd y cyfrifon. Bydd y lefelau yr wyf i'n barnu bod y camddatganiadau yn berthnasol yn cael eu hadrodd ichi yn fy Nghynllun Archwilio Manwl.



**Adrian Crompton**  
Archwilydd  
Cyffredinol Cymru

Byddaf yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#).

# Ffioedd a'r tîm archwilio

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddais y [cynllun ffioedd](#) am y flwyddyn, a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae'n nodi fy nghyfraddau ffioedd ac mae hefyd yn tynnu sylw at effaith safon archwilio ddiwygiedig Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 ar fy null archwilio ariannol. Nodir rhagor o fanylion am y safon archwilio ddiwygiedig a'r hyn y mae'n ei olygu i'r archwiliad yr ymgymeraf ag ef yn **Atodiad 1**.

Byddaf yn rhoi amcangyfrif o'ch ffi yn fy Nghynllun Archwilio Manwl ar ôl imi gwblhau fy asesiad risg manwl.

Tud. 61

## Eich tîm ymgysylltu:

Matthew Edwards	Cyfarwyddwr Ymgysylltu
Yvonne Thomas	Rheolwr Archwilio
Ben Hughes	Uwch Archwilydd

Mae'r unig fgygythiad i annibyniaeth y mae angen i mi ei ddwyn i'ch sylw yn ymwneud â'r Rheolwr Archwilio sydd gyda ffrindiau a pherthnasau sy'n cyfrannu i, neu yn derbyn pensiwn o'r Gronfa Bensiwn. O ganlyniad, bydd camau priodol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn cael ei reoli.

# Llinell amser archwilio

Nodwn isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni ein gwaith archwilio a'n hallbynnau arfaethedig.

Allbwn arfaethedig	Gwaith a wnaed	Cwblhau'r adroddiad
Cynllun Archwilio Amlinellol 2023	Mehefin 2023	Mehefin 2023
Cynllun Archwilio Manwl 2023	Awst i Medi 2023	Medi 2023
Gwaith archwilio datganiadau ariannol: <ul style="list-style-type: none"><li>• Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol</li><li>• Barn ar y Datganiadau Ariannol</li></ul>	Hydref 2023	Tachwedd 2023

Tud. 62

# Ansawdd archwilio

Mae fy ymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt.

Credaf fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn.

Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgyssylltu a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Gwnawn ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan yr Adran Sicrhau Ansawdd<sup>1</sup> ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel cyswllt ar ansawdd archwilio i'n Bwrdd. Am fwy o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2022](#).

Tud. 63



## Ein Pobl

Ffurir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwyllo ac adolygu



## Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

Ffurir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



## Sicrwydd annibynnol

Ffurir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

<sup>1</sup> Yr Adran Sicrhau Ansawdd yw Adran Sicrhau Ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr.

# Atodiad 1—y newidiadau allweddol i ISA315 a'r effaith bosibl ar eich sefydliad

Tud. 64

Newid allweddol	Effaith bosibl ar eich sefydliad
<p><b>Gweithdrefnau adnabod ac asesu risg manylach a mwy helaeth</b></p>	<p>Efallai y bydd eich tîm cyllid ac eraill yn eich sefydliad yn cael nifer fwy o ymholiadau gan ein timau archwilio yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad. Gallai ceisiadau am wybodaeth gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth am fodel busnes eich sefydliad a sut y mae'n integreiddio'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth (TG);</li> <li>• gwybodaeth am broses asesu risgiau eich sefydliad a sut mae eich sefydliad yn monitro'r system rheoli mewnol;</li> <li>• gwybodaeth fanylach am sut y caiff trafodiadau eu dechrau, eu cofnodi, eu prosesu, a'u hadrodd. Gallai hyn gynnwys y gallu i gael gafaél ar ddogfennaeth ategol fel llawlyfrau polisïau a gweithdrefnau;</li> <li>• trafodaethau manylach â'ch sefydliad i gefnogi asesiad o risg cynhenid y tîm archwilio.</li> </ul>
<p><b>Cael gwell dealltwriaeth o amgylchedd eich sefydliad, yn enwedig mewn cysylltiad â TG</b></p>	<p>Efallai y bydd eich sefydliad yn cael mwy o ymholiadau i gynorthwyo'r tîm archwilio i ddeall yr amgylchedd TG. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Apiâu TG sy'n berthnasol i adrodd ariannol;</li> <li>• y seilwaith TG ategol (ee y rhwydwaith, cronfeydd data);</li> <li>• Prosesau TG (ee rheoli newidiadau i raglenni, gweithrediadau TG);</li> <li>• y personél TG sy'n ymwneud â'r prosesau TG.</li> </ul>



Newid allweddol	Effaith bosibl ar eich sefydliad
	<p>Efallai y bydd angen i dimau archwilio profi'r rheolaethau TG cyffredinol a gallai hyn ei gwneud yn ofynnol cael tystiolaeth archwilio fanylach ar weithredu rheolaethau TG yn eich sefydliad.</p> <p>Ar rai archwiliadau, gallai ein timau archwilio gynnwys arbenigwyr archwilio TG i'w cynorthwyo i wneud eu gwaith. Efallai y bydd angen i'n harchwilwyr TG ymgysylltu ag aelodau o'ch tîm TG nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses archwilio o'r blaen.</p>
<p><b>Gofynion uwch yn ymwneud ag arfer amheuaeth broffesiynol</b></p>	<p>Gallai ein timau archwilio wneud ymholiadau ychwanegol os ydynt yn nodi gwybodaeth yr ymddengys i wrth-ddweud yr hyn y maent eisoes wedi ei ddysgu yn yr archwiliad.</p>
<p><b>Gellir cyflwyno asesiadau risg ar raddfa fwy, gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod y corff a archwilir</b></p>	<p>Bydd disgwyliadau'r tîm archwilio ynghylch ffurfioldeb polisïau, gweithdrefnau, prosesau, a systemau eich sefydliad yn dibynnu ar gymhlethdod eich sefydliad.</p>
<p><b>Gallai timau archwilio wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth gynnal eu harchwiliad</b></p>	<p>Gallai ein timau archwilio wneud defnydd o offer awtomataidd a thechnegau megis dadansoddi data wrth gynnal eu harchwiliad. Gallai ein timau ofyn am wybodaeth wahanol neu wybodaeth mewn fformat gwahanol i'r archwiliadau blaenorol fel y gallant gyflawni eu gweithdrefnau archwilio.</p>

# Eitem 9

CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR PENSIYNAU</b>
DYDDIAD:	<b>26 MEHEFIN 2023</b>
TEITL:	<b>CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU</b>
PWRPAS:	<b>I gymeradwyo'r Cynllun Busnes</b>
ARGYMHELLIAD:	<b>CYMERADWYO'R CYNLLUN BUSNES</b>
AWDUR:	<b>DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI</b>

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi diweddarau ei Gynllun Busnes ac eisiau derbyn cymeradwyaeth gan y pwyllgorau unigol o fewn y bartneriaeth.

Cafodd y Cynllun Busnes ei gyflwyno i'r Cyd- Bwyllgor Llywodraethu ar gyfer cymeradwyaeth 29ain o Fawrth 2023.

## 2. CYNLLUN BUSNES

Mae cynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manylu ar sut mae'r bartneriaeth yn mynd i gyflawni ei nodau. Mae'r cynllun busnes yn cael ei fonitro'n gyson ac yn cael ei adolygu a'i gytuno'n ffurfiol bob blwyddyn. Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Esbonio cefndir a strwythur llywodraethu'r PPC
- Amlinellu'r blaenoriaethau a'r amcanion dros y tair blynedd nesaf
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod y Cynllun Busnes
- Crynhoi Buddsoddiadau ac Amcanion Perfformiad PPC

Ceir wybodaeth o safbwynt marchnata, ariannol a gweithredol, gan amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y bartneriaeth yn ystod 2023- 2026 a gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i gyflawni ei amcanion.

Mae'r Cynllun Busnes ynghlwm ar gyfer eich adolygiad yn Atodiad 1.

## 3. ARGYMHELLIAD

Bod y Cynllun Busnes yn cael ei gymeradwyo.



# Partneriaeth Pensiwn Cymru

## Cynllun Busnes

### 2023 -2026



# Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru	3
Llywodraethu	4
Rheoli Risg	6
Amcanion	7
Credoau	8
Polisïau	9
Cynllun Gwaith	10
Cynllun Hyfforddi	12
Cyllideb	13
Buddsoddiadau a Pherfformiad	14
Manylion Cyswllt	16

# Cyflwyniad

Dyma'r cynllun busnes ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ('y Bartneriaeth'), sy'n cynnwys manylion ynghylch blaenoriaethau'r Bartneriaeth a'r meysydd y bydd yn canolbwyntio arnynt yn 2023/24, 2024/25 a 2025/26. Caiff y cynllun busnes ei fonitro'n barhaus, ac eir ati bob blwyddyn i'w adolygu a'i gymeradwyo'n ffurfiol. Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Egluro cefndir a strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth
- Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion y Bartneriaeth yn y tair blynedd nesaf
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod perthnasol y Cynllun Busnes
- Crynhoi Amcanion Buddsoddi a Pherfformiad y Bartneriaeth

## Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017, ac mae'n drefniant cydweithredol rhwng yr wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Cyfansoddol) sy'n weithredol drwy Gymru gyfan, ac mae'n un o wyth cronfa gyfun yn genedlaethol. Mae gennym hanes hir a llewyrchus o gydweithio, ac wedi bod yn gwneud hynny ers cyn i'r Llywodraeth gyhoeddi'i gynlluniau ar gyfer cyfuno gronfeydd. Rydym yn ymfalchio yn ein hunaniaeth unigryw fel Cronfa Gyfun – mae ein Hawdurdodau Cyfansoddol yn cynrychioli Cymru gyfan. Oherwydd ein hatebolrwydd democrataidd rydym yn cynnig y gorau o'r sector cyhoeddus o ran llywodraethu cryf a thryloywder.


Mae gennym ddull gweithredu sydd â'r nod o fod yn hyblyg a chyflawni gwerth am arian. Rydym wedi penodi Gweithredwr allanol i'r gronfa ac yn defnyddio ymgynghorwyr allanol er mwyn manteisio ar arbenigwyr o'r radd flaenaf i gynorthwyo wrth weinyddu'r Gronfa Gyfun, ac mae'r rhain yn cynnwys Hyman Robertson a benodwyd yn Ymgynghorydd Trosolwg ar ran y Bartneriaeth. Y Gweithredwr yw Link Fund Solutions, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Russell Investments wrth ddarparu rheolaeth effeithiol dros fuddsoddiadau a rhoi sicrwydd o ran perfformiad ffioedd i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae gennym weledigaeth gyffredin a chytundeb o ran sut fydd y weledigaeth honno'n cael ei chyflawni, a pha mor sydyn. Dyma wyth Cronfa CPLI (Awdurdodau Cyfansoddol) Partneriaeth Pensiwn Cymru:




# Llywodraethu

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn gyfrifol am sicrhau bod ei busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau. Rhaid sicrhau hefyd fod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau gwerth am arian. Rydym hefyd yn ymdrechu i gael gwelliant parhaus ac i gydymffurfio gydag arfer orau'r diwydiant.

Mae'r Bartneriaeth yn manylu ar sut mae'n ymdrin â phob agwedd o Lywodraethu drwy ei Chytundeb Rhyng-awdurdod (IAA) sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Haelodau, Pwyllgorau a'i Swyddogion. Mae'r Cytundeb Rhyng-awdurdod yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau sy'n ystyried y ddeddfwriaeth bresennol berthnasol. Yn unol â'i chred y dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid, mae'r Bartneriaeth wedi rhoi strwythur llywodraethu cadarn ar waith, sydd wedi cael ei ddylunio i:



Mae'r diagram a ganlyn yn dangos beth yw strategaeth llywodraethu'r Bartneriaeth:



Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gorwedd ar frig strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth. Hwyl sy'n rheoli'r holl weithgareddau a gyflawnir gan y Bartneriaeth ac maent yn parhau yn gyfrifol am gymeradwyo'r Cynllun Busnes, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith y Bartneriaeth, yn ogystal â'i chredoau a'i hamcanion. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwneud llawer â holl agweddau strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth, tra bod Cydbwyllgor Llywodraethu'r Bartneriaeth, Cynrychiolydd aelod o'r cynllun a'r Gweithgor Swyddogion yn cynnwys cynrychiolwyr cynghorwyr a swyddogion o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae'r Bartneriaeth yn credu y dylai fod yn agored a thryloyw yn ogystal ag ymgysylltu â'i rhan-ddeiliaid allweddol yn rheolaidd. Felly, mae'r Bartneriaeth yn sicrhau y gall y cyhoedd weld cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu drwy we-ddarllediad byw. Mae papurau'r cyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd hefyd. Ar ben hynny, bydd y Byrddau Pensiynau Lleol yn cynnal diwrnodau ymgysylltu yn gyson er mwyn meithrin cyswllt â rhan-ddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod pa mor bwysig yw ei holl ran-ddeiliaid, ac felly mae wedi sefydlu Fframwaith Protocol Ymgysylltu, sy'n pennu'r dulliau ymgysylltu a ganlyn:

Dulliau ymgysylltu ac Amllder:

- |   |                     |
|---|---------------------|
| • Cyfarfod Adolygu'r Berthynas Strategol    | Dwywaith y flwyddyn |
| • Ymgysylltiad â'r CBLI                     | Chwarterol          |
| • Galwadau/Cyfarfodydd Perfformiad Rheolwyr | Chwarterol          |
| • Digwyddiadau Hyfforddiant                 | Chwarterol          |
| • Ymgysylltiad â'r Gweithgor Swyddogion     | Chwarterol          |
| • Cyfarfodydd bob yn ail Wythnos            | Bob pythefnos       |
| • Pwyllgorau Cronfa Bensiwn                 | Blynyddol           |
| • Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr           | Blynyddol           |
| • Cyfathrebu ag Aelodau                     | Blynyddol           |
| • Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn              | Bob chwe mis        |
| • Ymgysylltu drwy'r wefan a LinkedIn        | Parhaus             |
| • Holiadur Gofynion ac Uchelgais Blynyddol  | Blynyddol           |
| Awdurdod Cyfansoddol                        |                     |

# Rheoli Risg

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod ei bod yn wynebu nifer o risgiau, o'u gadael heb eu rheoli, all gyfyngu ar allu'r Bartneriaeth i gyflawni ei hamcanion ac i weithredu er lles gorau ei rhan-ddeiliaid a'i buddiolwyr. Fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth hefyd yn deall na ellir lleddfu rhai risgiau'n llwyr ac yn yr achosion hyn mae angen ymdrin â'r risg wrth ei reoli'n weithredol ac yn effeithiol.


Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o ymrwymiad y Bartneriaeth i lywodraethu da, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu strategaeth risg gadarn, eang a strwythuredig. Bydd y strategaeth hon yn cael ei gwreiddio yn fframwaith llywodraethu'r Bartneriaeth i sicrhau gwell penderfyniadau, gwell deilliannau i ran-ddeiliaid a gwell effeithlonrwydd.

Mae strategaeth risg y Bartneriaeth yn ceisio adnabod a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau priodol a gweithdrefnau llywodraethu yn eu lle i reoli'r risgiau hyn. Cred y Bartneriaeth fod natur anwadal i'r risgiau hyn ac y gall difrifoldeb a thebygolrwydd risgiau newid yn sydyn ac yn ddirybudd. I adlewyrchu'r gred hon, mae Polisi Risg y Bartneriaeth wedi cael ei ddatblygu mewn modd lle gellir rhagweld risgiau ac ymdrin â hwy mewn modd cyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posib i'r Bartneriaeth a'i rhan-ddeiliaid.

I gyflawni ei hamcanion, mae angen i'r Bartneriaeth gynnal gweithgareddau neu fanteisio ar gyfleoedd sy'n ei rhoi mewn risg. Bydd y graddau y gall y Bartneriaeth gydbwyso'r risg a'r adenillion yn ddibynnol ar lwyddiant ei Bolisi Risg. Cyn gwneud penderfyniadau, mae'n hanfodol fod y Bartneriaeth yn deall y risgiau perthnasol ac yn ystyried sut ellir rheoli'r risgiau hyn.

Y risg mwyaf i weithrediad parhaus y Bartneriaeth yw ei gallu i gyflawni ei phrif amcanion. Mae Cynllun Busnes y Bartneriaeth yn fodd ychwanegol i'r Bartneriaeth roi cydnabyddiaeth arbennig i risgiau sy'n peri bygythiad materol i gyflawni ei hamcanion a'r camau sydd eu hangen i reoli'r risgiau hyn.

Yn ystod cyfnod y cynllun busnes hwn bydd y Bartneriaeth yn mynd ati i ddatblygu mecanweithiau, fframweithiau a phrosesau ar gyfer rheoli'r risgiau allweddol a ganlyn:





# Amcanion

Mae'r Bartneriaeth yn falch o gynrychioli'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ac yn cydnabod ei dyletswydd i sicrhau bod anghenion a gofynion yr holl ran-ddeiliad yn cael eu diwallu. Mae'r Bartneriaeth, trwy ymgynghoriad â'r wyth Awdurdod Cyfansoddol wedi llunio rhestr o brif amcanion a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Darparu trefniadau cyd-fuddsoddi sy'n galluogi i gronfeydd unigol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (pan fo hynny'n ymarferol).
- Cyflawni arbedion costau perthnasol i gronfeydd cyfranogol tra'n gwella neu'n cynnal a chadw perfformiad buddsoddi ar ôl ffioedd.
- Gweithredu trefniadau llywodraethu cadarn i gael trosolwg o weithgarwch y cyd-fuddsoddi.
- Gweithio'n agos gyda Chronfeydd Cyfun eraill i archwilio'r manteision y gall pob rhan-ddeilydd yng Nghymru elwa ohonynt wrth ddefnyddio datrysiadau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib.
- Darparu fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r deilliannau gorau i'w rhan-ddeiliaid allweddol; yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn medru defnyddio'r fframwaith hwn i ddarparu'r deilliannau gorau i Aelodau a Chyflogwyr y Cynllun.
- Ymwreiddio'r gwaith o gyflawni canlyniadau buddsoddi cynaliadwy, hirdymor yn y broses gwneud penderfyniadau, drwy ddyrannu cyfalaf, craffu parhaus ar reolwyr asedau ac arfer yr hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n codi fel perchnogion asedau.

Mae'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod fod eu cryfder yn deillio o'r credoau sy'n gyffredin rhyngddynt a'u gallu i gydweithio i gyflawni eu hamcanion cyffredin er lles holl ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.

# Credoau

Mae Credoau'r Bartneriaeth yn adlewyrchu natur gydweithredol a gwerthoedd cyffredin yr Awdurdodau Cyfansoddol, maent fel a ganlyn:

- Rôl y Bartneriaeth yw hwyluso a darparu llwyfan cyd-fuddsoddi fel cyfrwng i weithredu ddiddordebau'r Awdurdodau Cyfansoddol.
- Dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth
- Mae cydweithredu mewnol rhwng yr Awdurdod Lletya a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hanfodol i gyflawni amcanion y Bartneriaeth. Gall cydweithio allanol hefyd fod yn fanteisiol wrth ddarparu arbedion costau a gwell deilliannau i ran-ddeiliaid.
- Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau effeithiol i leddfu Risg Hinsawdd, ar y cyd ag ystyried a rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, arwain at well deilliannau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cyfathrebu mewnol ac allanol yn hanfodol i gyflawni amcanion y Bartneriaeth.
- Gall cyflenwyr allanol fod yn fodd cost-effeithiol o wella adnoddau, gallu ac arbenigedd y Bartneriaeth.
- Bydd tryloywder ffioedd a chostau yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ac yn gwella deilliannau i'r rhan-ddeiliaid.
- Bydd dysgu, arloesedd a datblygiad parhaus yn gymorth i'r Bartneriaeth a'i Hawdurdodau Cyfansoddol esblygu
- Bydd agwedd hyblyg at strwythur cyfun a dulliau gweithredu'r Bartneriaeth yn galluogi i gronfa gyfun y Bartneriaeth addasu yn y dyfodol a pharhau i ddiwallu anghenion ei rhan-ddeiliaid.


Mae credoau'r Bartneriaeth yn sylfaen i'r fframwaith llywodraethu ac maent wedi cael eu defnyddio i lywio pob un o weithgareddau'r Bartneriaeth a'i phenderfyniadau, gan gynnwys ei hamcanion a'i pholisïau.

# Polisiâu

Cred y Bartneriaeth y dylai llywodraethu da arwain at well deilliannau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth. I gydnabod y gred hon, mae'r Bartneriaeth, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi datblygu strwythur a fframwaith llywodraethu cadarn a chyfres o bolisiâu llywodraethu. Ym mhob achos, mae polisiâu a gweithdrefnau'r Bartneriaeth wedi cael eu datblygu i un ai gyfrannu neu ychwanegu at weithdrefnau a pholisiâu presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r Bartneriaeth yn deall pwysigrwydd llunio a chyfundrefnu ei pholisiâu a'i gweithdrefnau. Mae'r broses hon yn caniatáu i'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol:



Isod, ceir rhestr o bolisiâu allweddol, cofrestrï a chynlluniau'r Bartneriaeth, a gellir gweld y rhain i gyd ar wefan y Bartneriaeth:



Adolygir dogfennau'r Bartneriaeth hon yn rheolaidd, a bydd y Bartneriaeth yn cynnal asesiadau parhaus i bennu a oes gofyn am bolisiâu, cofrestrï neu gynlluniau ychwanegol. Mae cynllun gwaith y Bartneriaeth yn cynnwys nifer o ddogfennau llywodraethu ychwanegol fydd yn cael eu datblygu yn ystod y tair blynedd nesaf, a bydd y rhain ar gael ar wefan y Bartneriaeth. Mae'r polisiâu'n chwarae rôl hanfodol yn nhrefniadau llywodraethu'r Bartneriaeth ac maent wedi'u llunio gyda'r unig fwriad o ddarparu fframwaith sydd wedi'i gyfundrefnu fydd yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hamcanion mewn modd effeithiol a thryloyw.

# Cynllun Gwaith

Mae'r tablau isod yn dangos blaenoriaethau ac amcanion allweddol y mae'r PPC yn anelu at eu cwblhau dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun gwaith wedi'i rannu'n nifer o adrannau allweddol sydd oll yn hanfodol i lwyddiant parhaus PPC

- **Llywodraethu** - Mae'r Cynllun yn credu bod llywodraethu da yn arwain at ganlyniadau gwell i'w randdeiliaid, felly bydd yn datblygu ei fframwaith llywodraethu ymhellach drwy ddatblygu polisïau, cofrestrau, cynlluniau a chynnal adolygiadau parhaus o'i ddogfennau a'i strwythur llywodraethu presennol.
- **Datblygu Is-Gronfa barhaus** – Hyd yma mae'r Cynllun wedi cyfuno c72% o'i asedau ac mae nifer o is-gronfeydd eraill wrthi'n cael eu datblygu. Bydd y Cynllun yn parhau i ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol i sicrhau bod yr holl asedau addas yn cael eu cyfuno.
- **Gwasanaethau Gweithredwyr** - Mae'r Gweithredwr, ynghyd â'r trydydd partion y mae'n eu cyflogi ar ran y PPC, yn hanfodol i weithgareddau parhaus y PPC, felly mae darparu gwasanaethau'r Gweithredwr a chyflenwyr trydydd parti yn hanfodol. Daw'r contract gweithredwr presennol i ben ym mis Rhagfyr 2024.
- **Buddsoddiadau ac Adrodd** - Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr atebion buddsoddi presennol yn parhau i fod yn optimaidd ac yn cyd-fynd â gofynion yr Awdurdod Cyfansoddol, tra hefyd yn cyflawni disgwyliadau enillion buddsoddi'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y PPC yn parhau i gyflawni ei ofynion adrodd a bydd yn datblygu adroddiadau pellach, yn ôl yr angen.
- **Cyfathrebu a Hyfforddiant** - Mae'r PPC am sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol a phartion allanol yn ymwybodol o gynnydd y Cynllun ac yn cyhoeddi nifer o adroddiadau a diweddariadau i sicrhau ei fod yn mynd ati'n rhagweithiol i gyfleu ei gynnydd i randdeiliaid. Mae'r rhain i gyd i'w gweld ar wefan PPC.
- **Adnoddau, Cyllideb a Ffioedd** - Mae'r PPC yn cydnabod nad oes digon o adnoddau'n peri risg sylweddol i'w allu i ddarparu fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i'w randdeiliaid allweddol, mae'r PPC yn cynnal nifer o adolygiadau i warantu bod ganddo adnoddau addas i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Gwaith i'w gwblhau	2023 - 2024	2024 - 2025	2025 - 2026
<b>Llywodraethu</b>			
Datblygu Polisi Tramgwyddau a Gwallau PPC	✓		
Contract darparwr Gwasanaethau Cyfreithiol (adolygiad 3 blynedd cychwynnol)	✓		
Proses gaffael Ymgynghorydd Arolygiaeth		✓	
Proses gaffael darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu		✓	
Adolygu parhaus o'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau	✓	✓	✓
Adolygiad blynyddol o bolisïau a chynlluniau'r Bartneriaeth	✓	✓	✓
Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg	✓	✓	✓
Ymateb i unrhyw ystyriaethau'n ymwneud â'r buddsoddi ar y cyd, ac ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol yn dilyn canlyniadau ymgynghori.	✓	✓	✓

<b>Datblygiad parhaus Is-gronfeydd</b>			
Lansio'r Is-gronfeydd Dyled Preifat ac Isadeiledd	✓		
Lansio Is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy	✓		
Lansio Is-gronfa Ecwiti Preifat	✓		
Llunio gofynion Eiddo'r Bartneriaeth a'r modd gorau o'u gweithredu, ynghyd â lansio'r Is-gronfeydd eiddo	✓	✓	
Ystyried gofynion / effaith agenda Ffyniant Bro y Bartneriaeth	✓	✓	
Lansio Is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat eraill (l'w cadarnhau)	✓	✓	✓
Ymgynghori â'r AC am yr angen am ragor o is-gronfeydd, adolygu a datblygu dull o gyfuno unrhyw asedau addas na chawsant eu cyfuno	✓	✓	✓
Ystyried cyfleoedd Buddsoddi Lleol	✓	✓	✓
<b>Gwasanaethau Gweithredwr</b>			
Contract y gweithredwr / y broses gaffael	✓	✓	
Contract Gweithredwr Newydd		✓	
Trosolwg y Gweithredwr	✓	✓	✓
<b>Buddsoddiadau ac Adrodd Arnynt</b>			
Adolygu mandadau'r Is-gronfa i sicrhau eu bod yn gydnaws â Chredoau Buddsoddi Cyfrifol a Risgiau Hinsawdd y Bartneriaeth.	✓	✓	✓
Adroddiad y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)	✓	✓	✓
Adrodd ar y Cod Stiwardiaeth	✓	✓	✓
Ystyried adrodd ychwanegol sy'n dangos ymrwymiad y Bartneriaeth i Fuddsoddi Cyfrifol	✓	✓	✓
Adrodd, craffu a herio parhaus ar berfformiad y Rheolwr Buddsoddi	✓	✓	✓
Adolygiad blynyddol o Ofynion Tryloywder Costau'r Bartneriaeth	✓	✓	✓
Adolygiad perfformiad blynyddol o Is-gronfeydd y Bartneriaeth (Ecwiti ac Incwm Sefydlog)	✓	✓	✓
Ymgysylltiad parhaus â'r Awdurdodau Cyfansoddi o ran safonau isafswm ESG / Buddsoddi Cyfrifol a'u huchelgeisiau hinsawdd	✓	✓	✓
<b>Cyfathrebu a Hyfforddiant</b>			
Llunio Adroddiad Cynnydd Blynyddol y Bartneriaeth ar Fuddsoddi Cyfrifol	✓	✓	✓
Llunio Cynllun Hyfforddi Blynyddol y Bartneriaeth	✓	✓	✓
Llunio Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth	✓	✓	✓
Llunio Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth	✓	✓	✓
<b>Adnoddau, Cyllideb a Ffioedd</b>			
Adolygiad blynyddol o adnoddau a chapasiti	✓	✓	✓
Llunio Cyllideb Flynyddol y Bartneriaeth	✓	✓	✓
Adolygu a Monitro ffioedd Gweithredwr / darparwr allanol	✓	✓	✓

# Cynllun Hyfforddi

Yr arfer orau yw i staff y Bartneriaeth gael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol ynghylch:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â phensiynau;
- cyd-fuddsoddi Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol; a
- chyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth i ategu cynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar y lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth o ran cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bartneriaeth. Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrices llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol i ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor Llywodraethu; fodd bynnag, anogir Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiwn, yn ogystal â chynrychiolwyr y Byrddau Pensiwn, os ydynt yn credu y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hyn.

Rydym wedi nodi isod restr o bynciau hyfforddi y bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu hyfforddiant ar eu cyfer yn ystod blwyddyn ariannol 2022/2023. Mae pynciau hyfforddi PPC yn seiliedig ar flaenoriaethau amserol cyfredol PPC ac o ddadansoddiad o holiadur gofynion hyfforddi WPP/ymatebion asesu, a gwblhawyd gan aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ('CBLI') a Gweithgor Swyddogion ('GS').

## Gwybodaeth am Gynnyrch

- Dosbarthiadau Ased Marchnad Breifat – Ecwiti / Eiddo Preifat
- Ffyniant lleol / cyfleoedd datblygu

## Adrodd

- Adrodd ar TCFD
- Adrodd ar berfformiad

## Buddsoddiad Cyfrifol (RI)

- Pleidleisio ac Ymgysylltu
- Buddsoddi Cyfrifol o fewn is-gronfeydd WPP

## Dealltwriaeth y Farchnada Gofynion Rheoleiddio

- Cynnydd cronfeydd CPLIL eraill a Chyfleoedd i Gydweithio
- Canllawiau Pŵlio

# Cyllideb

Mae'r tabl isod yn nodi cyllideb y Bartneriaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf.

	2023-24	2024-25	2025-26
	£'000	£'000	£'000
Awdurdod Lletya *	200	205	209
Ymgynghorwyr Allanol *	1,448	1,130	1,040
<b>CYFANSWM i'w ail-godi</b>	<b>1,648</b>	<b>1,335</b>	<b>1,249</b>
Gwasanaethau Gweithredwr / Dyranwr **	37,257	40,982	45,080
<b>CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau</b>	<b>37,257</b>	<b>40,982</b>	<b>45,080</b>

*\*Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o wyth Awdurdod Cyfansoddol y Bartneriaeth yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*


*\*\*Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr / Dyranwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth (sydd ym meddiant y Gweithredwr) ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol (sydd ym meddiant y Gweithredwr).*

# Buddsoddiadau a Pherfformiad

Cyfanswm asedau Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yw tua £23 biliwn (fel yr oedd hi ar 31 Mawrth 2022). Mae buddsoddiadau goddefol yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gorwedd yn y Gronfa Gyfun i bob pwrpas, ond maent yn aros ym meddiant yr awdurdodau perthnasol ar ffurf polisïau yswiriant.

Mae'r Gweithgor Swyddogion yn derbyn adroddiadau perfformiad pob chwarter, pob chwe mis a phob blwyddyn, ac mae'r Grŵp yn adolygu a herio perfformiad y Rheolwyr Buddsoddiadau ar ran y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal diwrnodau ymgysylltu â rheolwyr yn flynyddol, a defnyddir y rhain i herio rheolwyr a hwyluso ymgysylltu ag Aelodau Pwyllgorau a Byrddau Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol, a Rheolwyr Buddsoddiadau'r Bartneriaeth. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol hefyd yn gwneud eu dadansoddiadau lleol eu hunain o berfformiad buddsoddiadau'r Bartneriaeth, a bydd hynny'n golygu y bydd rheolwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Pensiynau. Mae'r isod yn amlinellu Is-gronfeydd y Bartneriaeth ar hyn o bryd.

## Is-gronfeydd Ecwiti



\* Gwerth y portffolios ar y dyddiad lansio

Is-gronfa	Meincnod perfformiad	Cronfeydd Cyfranogol	Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol	Dyddiad Lansio
Twf Byd-eang	MSCI ACWI ND	Rhondda Cynon Taf, Gwynedd, Caerdydd a Phowys	Baillie Gifford, Veritas a Pzena	Chwefror 19
Cyfleoedd Byd-eang	MSCI ACWI ND	Abertawe, Torfaen, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd a Chlwyd	Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, Nissay, Intermede ac Oaktree	Chwefror 19
Cyfleoedd y DU	FTSE All Share	Caerdydd a Thorfaen	Liontrust (Majedie), Lazard, Baillie Gifford, Ninety-One, J O Hambro a Liontrust	Medi 19
Marchnadoedd Datblygol	MSCI Marchnadoedd Datblygol	Caerdydd, Clwyd, Gwynedd a Torfaen	Artisan, Bin Yuan, Barrow Hanley, Axiom, Numeric ac Oaktree	Hydref 21



## Is-gronfeydd Incwm Sefydlog



\* Gwerth y portffolios ar y dyddiad lansio

Is-gronfa	Meincnod perfformiad	Cronfeydd Cyfranogol	Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol	Dyddiad Lansio
Credyd Byd-eang	Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index (GBP Hedged)	Caerdydd, Dyfed, Powys a Thorfaen	Western, Metlife, Fidelity a T Rowe Price	Gorffennaf 20
Llywodraeth Byd-eang	FTSE World Government Bond Index (GBP Hedged)	Caerdydd a Thorfaen	Bluebay a Colchester	Gorffennaf 20
Credyd aml-ased	ICE BofA SONIA + 4% y flwyddyn	Caerdydd, Clwyd, Gwynedd, Powys ac Abertawe	ICG, Man GLG, BlueBay, Barings a Voya	Gorffennaf 20
Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt	ICE BofA SONIA + 2% y flwyddyn	Caerdydd, Powys ac Abertawe	Wellington, Putnam, Aegon and Insight	Medi 20
Cronfa Credyd y Deyrnas Gyfunol	ICE BofA ML Eur-Stg plws 0.65%	Rhondda Cynon Taf	Fidelity	Gorffennaf 20

# Manylion Cyswllt

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am rywbeth yn y cynllun busnes hwn neu rywbeth sy'n gysylltiedig ag ef, mae croeso ichi gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:

Drwy'r Post – Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyngor Sir Gâr

Adain y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

SA31 1JP

E-bost – [Partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk](mailto:Partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk)

Rhif ffôn - (01267) 224136

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y Bartneriaeth a'r newyddion diweddaraf ynglŷn â chynnydd drwy fynd i'r wefan a'r dudalen LinkedIn.

Dyma gyfeiriad y wefan:

<https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>



CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	26ain MEHEFIN 2023
TEITL	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
PWRPAS	I dderbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru
ARGYMHELLIAD	Nodi a derbyn y wybodaeth
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae hwn yn adroddiad newydd rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wneir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PCC) ar ran yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i hen sefydlu, gyda Link Fund Solutions wedi'i benodi fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymadau stiwardiaeth.

## 2. DIWEDDARIAD CHWARTERTOL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU (CLI)

Cynhaliwyd cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLI) sef corff gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth, yn ffurfiol ar 29ain Mawrth 2023. Mae'r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o'r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Mae Cynllun Hyfforddi PPC ar gyfer 2023/24 hefyd ynghlwm, fel Atodiad 2, gyda'r digwyddiadau hyfforddi rhithiol sydd hyn yn agored i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau (a'r Bwrdd Pensiwn) gyda gwahoddiadau i'w hanfon ymlaen pan fydd amseroedd a dyddiadau wedi'u cadarnhau.

## 3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o'r diweddariad chwarterol diweddaraf gan Link Fund Solutions wedi'i atodi o dan atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg o'r ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 31ain Rhagfyr 2022.

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn chwech o'r deg is-gronfa ac ar 31 Rhagfyr 2022 roedd y rhain fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £440.4m**
- **Twf Byd- Eang- £404.8m**
- **Marchnadoedd Datblygol** **£56.3m**

- **Goddefol Byd-Eang - £765.3m**
- **Credyd Aml Ased - £179.8m**
- **Strategaeth Bond Absoliwt- £357.3m**

Er mwyn gweithredu dyraniad asedau strategol diwygiedig y Gronfa, mae'r Gronfa wedi buddsoddi'n ddiweddar yn y Gronfa Credyd Byd- Eang a fydd yn cael ei gynnwys yn y diweddariad gweithredwr nesaf.

#### **4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 31AIN RHAGFYR 2022**

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn atodiad 4.

Yn ystod y chwarter hyd at 31 Rhagfyr cofnododd Mynegai Net y Byd MSCI ei chwarter cadarnhaol cyntaf mewn blwyddyn a hwn oedd y chwarter cryfaf ar gyfer y mynegai ers pedwerydd chwarter 2020. Rhagwelir cynnydd arafach mewn cyfraddau llog y dyfodol roedd data chwyddiant meddalach na'r disgwyl wedi rhoi hwb i frwdfrydedd buddsoddwyr.

Mae perfformiad is-gronfeydd Gwynedd yn cael eu monitro gan swyddogion ac fel rhan o adolygiad buddsoddiad chwarterol gan Hymans Robertson ac nid oes pryderon wedi ei nodi.

#### **5. DATBLYGIADAU Y DYFODOL**

- Mae dyddiad lawnsio y gronfa PPC Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy wedi'i osod ar gyfer diwedd mis Mehefin 2023, ac mae'r trafodion pontio yn digwydd ar hyn o bryd.
- Mae'r gwaith o ymuno ag is-gronfa Credyd Preifat PPC ac isadeiledd caeedig bellach wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith yn parhau gyda'r is-gronfa isadeiledd penagored yn parhau.
- Ynghyd â chwech o Gronfeydd CPLIL eraill Cymru, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi tanysgrifio i brosiect Fferm Wynt Cymru Capital Dynamics. Cyfanswm y buddsoddiad yw £10m ac mae'n dangos yr ymrwymiad i fuddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ac yng Nghymru.
- Unwaith y bydd y gweithgaredd gyda'r is-gronfeydd hyn wedi'i gwblhau, bydd sylw PPC yn troi at lawnsio is-gronfa Ecwiti Preifat PPC a datblygu datrysiadau eiddo. Mae Schrodgers wedi'i benodi fel dyranwr ar gyfer yr is-gronfa Ecwiti Preifat.

#### **6. ARGYMHELLIAD**

I dderbyn a nodi y gwybodaeth.

## Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

### Diweddariad Cyd-bwyllgor Llywodraethu (CBLI)

Dyddiad cyfarfod CBLI: Dydd Mercher, 29 Mawrth 2023

Lleoliad: Cyfarfod hybrid, dan lywyddiaeth Gwynedd

Cadeirydd: Cyng Christopher Weaver, Caerdydd

Is Gadeirydd: Cyng Ted Palmer, Clwyd

Eitem agenda	Manylion
Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya	<p>Rhoddodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya ddiweddariad mewn perthynas â gwaith sydd wedi'i gwblhau ers cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a chamau / blaenoriaethau nesaf PPC.</p> <p>Tynnodd Anthony sylw at linell amser proses gaffael y Contract Gweithredwr, a'r camau allweddol oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>○ Mai – Gorff 2023, Awdurdodau Cyfansoddol unigol (AC) i gymeradwyo meini prawf gwerthuso a sgorio ar gyfer dogfennau caffael terfynol</li><li>○ Medi / Hyd 2023 – Cyhoeddi Gwahoddiad i Dendro</li><li>○ Tach / Rhag 2023 – Gwerthuso</li><li>○ Mawrth 2024 – Cymeradwyo gweithredwr a argymhellir gan y CBLI</li><li>○ Mai 2024 – Apwyntio'r gweithredwr</li><li>○ Mai 2024 – Rhag 2024 – cyfnod pontio</li><li>○ Rhagfyr 2024 – contract ffurfiol newydd yn dechrau</li></ul> <p>Cyflwynodd Anthony hefyd y diweddariad o Gynllun Busnes 2022/23 ar 31 Rhagfyr 2022.</p>
Cynllun Hyfforddi PPC 2023/24	<p>Cyflwynodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya Gynllun Hyfforddi PPC 2023/24. Dyfeisiwyd y cynllun hyfforddi hwn i ategu hyfforddiant presennol yr Awdurdod Cyfansoddol a bydd yn berthnasol i weithgareddau pwlio PPC.</p>

	<p>Cynhelir sesiynau hyfforddi 2023/24 bob chwarter a byddant yn ymdrin â'r pynciau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth am gynnyrch</li> <li>• Adrodd</li> <li>• Buddsoddi Cyfrifol</li> <li>• Deall y farchnad a Gofynion Rheoleiddiol</li> </ul> <p>Cymeradwydd y CBLI Gynllun Hyfforddi 2023/24 (ynghlwm)</p> <p>Bydd y sesiwn hyfforddiant cyntaf yn rhithiol ar Ddydd Iau 8 Mehefin 2023 a bydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dosbarthiadau Ased Marchnadoedd Preifat – Ecwiti Preifat / Eiddo</li> <li>• Lefelu fyny / cyfleoedd datblygu</li> </ul>
<p>Cynllun Busnes PPC 2023-2026</p>	<p>Mae cynllun busnes PPC wedi'i ddrafftio yn unol ag Adran 6 o'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau. Pwrpas y cynllun busnes yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Egluro cefndir a strwythur llywodraethu PPC</li> <li>• Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion PPC dros y tair blynedd nesaf</li> <li>• Cyflwyno polisiau a chynlluniau PPC</li> <li>• Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod y Cynllun Busnes perthnasol</li> <li>• Crynhoi Amcanion Buddsoddiadau a Pherfformiad PPC</li> </ul> <p>Cyflwynodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya Gynllun Busnes PPC 2023-26 a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Mae'r Cynllun Busnes bellach wedi'i anfon at bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig.</p>
<p>Cofrestr Risg Adolygiad Ch1 2023</p>	<p>Mae'r Gweithgor OWG yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLI bob chwarter. Mae gan y Gweithgor Is-grŵp Risg penodedig i gymryd perchnogaeth o'r Gofrestr Risg a'r adolygiad chwarterol o'r ddogfen.</p>

	<p>Yn ystod Ch1 2023, cynhaliwyd adolygiad o rai o'r risgiau yn yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio o'r Gofrestr Risg, risgiau G1 i G7 a hefyd risg G12.</p> <p>Cyflwynodd Hymans y newidiadau a gymeradwywyd gan y CBLI. Mae'r Gofrestr Risg ar gael ar wefan PPC.</p>
Adolygiadau Polisi: Matrics Llywodraethu	<p>Mae PPC wedi cymeradwyo nifer o bolisïau / cynlluniau sydd i'w hadolygu'n rheolaidd. Y chwarter hwn, mae'r Gweithgor wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r Matrics Llywodraethu.</p> <p>Yn dilyn adolygiad eleni, mae'r Matrics Llywodraethu wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at adrannau perthnasol y Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA).</p> <p>Mae'r matrics wedi'i ddiweddaru wedi'i gymeradwyo ac mae gwefan PPC wedi'i diweddaru.</p> <p>Nid oedd unrhyw bolisïau newydd y chwarter hwn.</p>
Diweddariad Gweithredwr	<p>Cyflwynodd Link ei adroddiad diweddaru chwarterol ar 31 Rhagfyr 2022 (ynghlwm). Mae hwn yn rhoi diweddariad ar is-gronfeydd a gweithgaredd corfforaethol ac ymgysylltu PPC.</p>
Adroddiadau Perfformiad ar 31 Rhagfyr 2022	<p>Cyflwynodd Russell Investments bapur crynodeb perfformiad Ch4 (ynghlwm) yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2022.</p>
<p>Eitemau Eithredig – trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod y rhan nad oedd yn gyhoeddus o'r cyfarfod.</p>	
Adroddiad Benthycu Gwarantau Byd-eang fel ar 31 Rhagfyr 2022	<p>Dechreuodd Benthycu Stoc ym mis Mawrth 2020 a chyflwynodd Northern Trust yr Adroddiad Benthycu Gwarantau Byd-eang ar gyfer Ch4 2022 (chwarter yn dod i ben 31 Rhagfyr 2022).</p>
Adroddiad Ymgysylltu Robeco – Ch4 2022	<p>Ym mis Mawrth 2020, penodwyd Robeco yn Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i gyflawni swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran PPC. Dechreuodd Robeco eu gwasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent wedi darparu adroddiad ymgysylltu ar gyfer Chwarter 4 2022.</p>

<p>Buddsoddiad Cyfrifol ac adroddiadau Risg Hinsawdd</p>	<p>Bob chwarter, mae Hymans Robertson yn cynhyrchu Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd chwarterol ar gyfer is-gronfeydd PPC.</p> <p>Ar gyfer Chwarter 4 2022 (chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2022), cynhyrchwyd adroddiadau Credyd y DU, Credyd Byd-eang a Bond Llywodraeth Fyd-eang.</p> <p>Cyflwynodd Hymans yr adroddiadau i aelodau'r CBLI.</p>
--	--

Dolen we-ddarllediad ar gyfer cyfarfod 29 Mawrth isod:

[Agenda for Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru on Dydd Mercher, 29ain Mawrth, 2023, 10.30 yb](#)

Gwefan PPC - [Cronfa Pensiwn Cymru | Cartref \(partneriaethpensiwncymru.org\)](#)

Cyfarfod nesaf:

- Dydd Mercher, 19 Gorffennaf 2023 – cyfarfod rhithiol



# Cynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru 2023/24

## Cefndir a Rhagarweiniad

Mae'n arfer orau i bersonél PPC gael:

Gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â phensiynau;
- cyd-fuddsoddi Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol; a
- cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth yn atodol at gynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth ynghylch cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth fagu gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni eu dyletswyddau fel y bônt yn gysylltiedig â'r Bartneriaeth.

Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrics llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

Awgrymir bod staff newydd y Bartneriaeth yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno ffurfiol i gyrraedd y lefel o wybodaeth a nodir uchod. Yn dilyn hyfforddiant cyflwyno, mae disgwyl i staff gynnal eu dealltwriaeth o'r eitemau a nodir uchod, gan gwblhau unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol a fydd yn ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Noder y bydd yr Awdurdod Lletya yn cadw cofnod dan y cynllun hyfforddiant a fydd yn cynnwys manylion cyfredol o'r holl hyfforddiant y mae staff y Bartneriaeth wedi'i gwblhau, a'r hyfforddiant y bwriedir ei gynnal yn y dyfodol agos.

Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, anogir yr Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiynau hwythau, yn ogystal â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os credant y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hynny.

Mae gan y Bartneriaeth Bolisi Hyfforddiant penodol ac fe ellir ei weld ar wefan PPC. Mae'r polisi yn rhoi rhagor o fanylion ar sut mae PPC yn ymdrin â hyfforddiant a datblygiad.

## Hyfforddiant Unigol

Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth.

Yr arfer orau yw bod unigolion yn adolygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain bob blwyddyn o leiaf, ac ymgymryd â dysgu pellach ar gyfer unrhyw feysydd a nodwyd fel rhai sydd angen sylw neu ddatblygiad pellach.

### Hyfforddiant 2022/23

Rydym wedi nodi isod restr o bynciau hyfforddi y bydd yr Awdurdod Lletya yn eu trefnu yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r pynciau a amlinellir isod yn seiliedig ar flaenoriaethau amserol cyfredol WPP ac o ddadansoddiad o holiadur gofynion hyfforddi WPP/ymatebion asesu, a gwblhawyd gan aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu ('CBLI') a Gweithgor Swyddogion ('GS').

Pwnc	Dyddiad
<b>Gwybodaeth am Gynnyrch</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Dosbarthiadau Ased Marchnad Breifat – Ecwiti / Eiddo Preifat</li></ul>	Ch1
<ul style="list-style-type: none"><li>Ffyniant lleol / cyfleoedd datblygu</li></ul>	Ebrill - Mehefin 2023
<b>Adrodd</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Adrodd ar TCFD</li></ul>	Ch2
<ul style="list-style-type: none"><li>Adrodd ar berfformiad</li></ul>	Gorffennaf - Medi 2023
<b>Buddsoddi Cyfrifol (RI)</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Pleidleisio ac Ymgysylltu</li></ul>	Ch3
<ul style="list-style-type: none"><li>Buddsoddi Cyfrifol o fewn is-gronfeydd WPP</li></ul>	Hydref - Rhagfyr 2023
<b>Deall y Farchnad</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Cynnydd cronfeydd CPLIL eraill a Chyfleoedd i Gydweithio</li></ul>	Ch4
<ul style="list-style-type: none"><li>Canllawiau Pŵlio</li></ul>	Ionawr - Mawrth 2024

\* Sylwch mai dyddiadau amcangyfrifedig yw rhain ac efallai y gallant newid

# Partnariaeth Pensiwn Cymru


## Adolygiad Ch3 2022

Cydbwyllgor Llywodraethu  
29 Mawrth 2023


# Braslun o'r Gronfa Rhagfyr 2022 - Ecwiti

Tud. 92


## Global Growth




## Global Opportunities




## UK Opportunities



## Emerging Markets



## Passive\*



Allwedd:


- Dyfed
- Powys
- Gwynedd
- RHCT
- Torfaen
- Clwyd
- Abertawe
- Caerdydd

\* Asedau gyda BlackRock


# Braslun o'r Gronfa Rhagfyr 2022 - Incwm Sefydlog

Tud. 93


## Sterling Credit




## Global Credit




## Multi Asset Credit



## Global Gov. Bond



## Absolute Return Bnd



- Allwedd:
- Dyfed
  - Powys
  - Gwynedd
  - RHCT
  - Torfaen
  - Clwyd
  - Abertawe
  - Caerdydd

# Asedau dan Reolaeth (AUM) LF Cronfa PP Cymru Rhagfyr 2022

Cronfa	AUM	Dyddiad cychwyn
Twf Byd-eang	£3,104,778,363	6 Chwe 2019
Cyfleoedd Byd-eang	£3,188,458,078	14 Chwe 2019
Cyfleoedd y DU	£717,591,254	10 Hyd 2019
Marchnadoedd Datblygol	£342,319,147	20 Hyd 2021
Credyd Sterling	£507,744,202	19 Awst 2020
Credyd Byd-Eang	£680,034,155	21 Awst 2020
Credyd Aml-ased	£627,408,462	12 Awst 2020
Bondiau Llywodraeth Byd-Eang	£469,482,425	20 Awst 2020
Bond Enillion Absoliwt	£528,372,987	30 Medi 2020
<b>Cyfanswm Buddsoddiadau Actif</b>	<b>£10,166,189,073</b>	
<b>Cyfanswm Buddsoddiadau Goddefol</b>	<b>£4,942,219,628</b>	
<b>Cyfanswm Asedau Cyfun</b>	<b>£15,108,408,701 fel ar 31 Rhagfyr 2022</b>	

# Gweithgaredd Lansio a Diweddariadau ar Gronfeydd

Adroddiad Cynnydd

# Gweithgarwch Cronfeydd yn y Cyfnod

## Llwyddiannau Allweddol a Diweddariadau

Cynnydd o ran Lansio Cronfeydd					
	Trosolwg	Statws	Cynnydd yn y cyfnod	Dyddiadau lansio / cwblhau	
Tud. 96	<b>Cronfa Ecwiti Cynladwy</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu cronfa ecwiti cynladwy</li> </ul>	Yn mynd rhagddo	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd yr wyth awdurdod yn ystyried buddsoddi yn y gronfa newydd</li> <li>Amserlen wedi'i darparu gyda lansiad posib yn gynnar yn Ch2. Oherwydd natur y gronfa a'r cwestiynau manwl a godwyd, nid oedd modd lansio ym mis Mawrth 2023, ond byddwn yn ceisio tynhau'r amseroedd pan fo hynny'n bosib.</li> <li>Trafodaethau Rheolwr Trosglwyddo yn parhau gyda RFP ac wedi'u rhannu â'r Bartneriaeth a'r Rheolwr Trosglwyddo a ffafrir wedi'i nodi</li> </ul>	Ch2-23 (amserlen lawn i'w darparu)
	<b>Rheolwr Buddsoddi Newydd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ychwanegu Robeco i'r gronfa Credyd Byd-eang, tynnu T Rowe Price yn ôl</li> </ul>	Yn mynd rhagddo	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheolwr Buddsoddi Newydd 'Robeco' i gael ei gymeradwyo Ch1-23 a'i weithredu yn fuan wedi hynny</li> </ul>	C2-23



Diweddariad ac Ymgysylltiad  
Corfforaethol LFS

# Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol LFS

## Diweddariadau LFS

- Ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Llywodraethu ar 5 Rhagfyr 2022, mae'r FCA wedi cyflwyno hysbysiad rhybudd drafft i LFSL o ran Woodford. Datgan hyn mai barn gychwynnol FCA oedd y byddai dirwy o £50m (cyn ystyried unrhyw ddisgownt posib) yn briodol yn ychwanegol i daliad gwneud iawn o hyd at £306,096,527. Nid yw'r hysbysiad rhybudd drafft yn benderfyniad terfynol ond mae'n gychwyn i broses benderfynu'r FCA ar setliad. Mae LFSL yn ystyried pob dewis, yn cynnwys ymgysylltu â thrafodaethau setliad gyda'r FCA, a herio unrhyw rybudd a all gael ei gyflwyno. Mae'r ymgysylltu â'r FCA yn parhau.
  - Datganodd Link Group ym mis Hydref ei bod yn fwriad ganddynt ddechrau proses i archwilio opsiynau dad-fuddsoddi ar gyfer busnes Link Fund Solutions, sy'n cynnwys Link Fund Solutions Ltd (LFSL), a fod Macquarie Capital ac UBS Securities Australia Ltd wedi cael eu penodi fel ymgynghorwyr. Mae trafodaethau gyda phartïon posib sydd â diddordeb yn parhau.
- Tud. 98
- Cyhoeddodd Link Group ar 20 Chwefror 2023 ei fod mewn trafodaeth neilltuedig gyda grŵp Waystone o ran gwerthu'r cyfan o'i fusnes Fund Solution, ac eithrio rhwymedigaethau'n gysylltiedig â Woodford. Daeth hyn yn sgil cyfnod o drafodaethau neilltuedig cyfrinachol a diwydrwydd dyledus gyda Waystone. Mae unrhyw drafodion gyda Waystone yn amodol ar gwblhau'r diwydrwydd dyledus yn llwyddiannus a chwblhau'r cytundebau cyfreithiol manwl, yn ogystal â chymeradwyaeth y bwrdd ac eraill. Mae Link Group wedi caniatáu cyfnod pellach o drafodaethau neilltuedig gydag Waystone i alluogi'r partïon i gwblhau'r cytundebau cyfreithiol gofynnol cyn diwedd mis Mawrth 2023.
- Yr un pryd, mae Link Group a Link Fund Solutions Limited (LFSL) mewn trafodaethau cyfrinachol pellach gyda'r FCA i gael setliad i ymchwiliad FCA yn erbyn LFSL. Os cytunir ar setliad gyda'r FCA, byddai'n datrys ymchwiliad presennol FCA a byddai hefyd yn amodol ar Gynllun Trefniant i LFSL ddatrys holl ddyledion Woodford a chywiro rhwymedigaethau LFSL.
  - Ni fyddai gwerthu FS Business i Waystone yn amodol ar y cytundeb trefniant nac ar unrhyw setliad FCA yn bod yn ddiamod. Nid yw Waystone nac FCA wedi cyrraedd cytundeb cyfreithiol eto ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw sicrwydd y bydd unrhyw gytundebau o'r fath yn cael eu cwblhau.

# Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol LFS

## Ymgysylltu Allweddol â PPC yn Ch3 ac yn y dyfodol

### **Presenoldeb Link yng nghyfarfodydd y GS/CBLI yn y cyfnod:**

- GS 14 Hydref 2022
- CBLI PPC 5 Rhagfyr 2022

### **Presenoldeb Link yng nghyfarfodydd y GS/CBLI yn y chwarter nesaf:**

- OWG 7 Chwefror 2023
- CBLI PPC 29 Mawrth 2023

### **Link - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiwn yn y cyfnod:**

- Dim

### **Link - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiwn yn y chwarter nesaf:**

Bwrdd Pensiwn RhCT - cyfarfod o'r pwyllgor Pensiynau 6 Mawrth 2023

Bwrdd Pensiwn Dyfed - cyfarfod o'r pwyllgor Pensiynau 28 Mawrth 2023

### **Cyfarfodydd eraill yn y cyfnod**

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Y Gweithgor - digwydd bob pythefnos
- Sesiwn briffio / hyfforddiant PPC - (Sesiwn gyntaf)

### **Cyfarfodydd eraill yn y chwarter nesaf**

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Y Gweithgor - digwydd bob pythefnos

# Protocol Ymgysylltu LFS

## Busnes fel Arfer

Adolygu'r Berthynas Strategol	Amllder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"><li>Dwywaith y flwyddyn</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Sicrhau aliniad strategol rhwng yr Awdurdod Lletya a Link</li></ul>
<b>Mynychwyr PPC</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Chris Moore</li><li>Anthony Parnell</li><li>Dau Swyddog Adran 151 / Dirprwy Swyddog Adran 151</li></ul>		<b>Mynychwyr Link</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Karl Midl, Rheolwr Gyfarwyddwr</li><li>Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau</li></ul>
Ymgysylltiad â'r CBLI	Amllder	Amcan
Tud 100 <b>Mynychwyr PPC</b> Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLI)	<ul style="list-style-type: none"><li>Chwarterol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Ymgysylltu â'r CBLI ar faterion perthnasol a phosibiliadau strategol</li></ul>
		<b>Mynychwyr Link</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Karl Midl, Rheolwr Gyfarwyddwr / Adam Tookey, Pennaeth Cynnyrch – fel bo'r angen</li><li>Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau</li><li>James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau</li><li>Russell Investments</li></ul>
Ymgysylltiad â'r Gweithgor Swyddogion	Amllder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"><li>Bob deufis</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Adnabod a chyflawni cyfleoedd i wella ac ehangu'r berthynas</li><li>Rhoi diweddariad ar brosiectau neu faterion sy'n agored</li><li>Adolygiad DPA Misol (Darperir y data yn fisol)</li></ul>
<b>Mynychwyr PPC</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Gweithgor Swyddogion (GS)</li></ul>		<b>Mynychwyr Link</b> <ul style="list-style-type: none"><li>James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau</li><li>Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau</li><li>Alistair Coyle/Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)</li><li>Swyddogion Link yn mynychu'n ad-hoc o adrannau swyddogaethol: Treth, Cydymffurfiaeth, Cynnyrch ac ati</li><li>Russell Investments</li></ul>

# Protocol Ymgysylltu Link (parhad)...

## Busnes fel Arfer


Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya	Amllder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"><li>Bob pythefnos</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Cyswllt rheolaidd rhwng yr Awdurdod Lletya – LFS i drafod beth sy'n bosib i'w gyflawni, a diweddariadau busnes</li></ul>
<b>Mynychwyr PPC</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Anthony Parnell</li><li>Tracey Williams</li></ul>		<ul style="list-style-type: none"><li>Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau</li><li>James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau</li><li>Alistair Coyle/Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)</li><li>Clair Baguley, Rheolwr Gwasanaeth Cleient (fel bo'r angen)</li></ul>
Gweithgor PPC	Amllder	Amcan
<b>Mynychwyr PPC</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Gweithgor Swyddogion (GS)</li><li>Hymans</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Bob pythefnos</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Galwad prosiect rheolaidd i drafod cynnydd gyda'r hyn sydd i'w gyflawni</li><li>Tîm Cleient Link</li><li>Northern Trust</li><li>Russell Investments</li><li>Ymgynghorwyr eraill (e.e. bFinance)</li></ul>
Diwrnod Blynyddol i Gyfranddalwyr	Amllder	Amcan
<ul style="list-style-type: none"><li>Agored i'r holl bartion ynghlwm</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Blynyddol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Diwrnod agored i gael cyflwyniadau ar strategaeth a pherfformiad (gydag IM)</li><li>Tîm Cleient Link</li><li>Northern Trust</li><li>Russell Investments a Rheolwyr Buddsoddi eraill (e.e. Rheolwyr Twf Byd-eang)</li><li>Ymgynghorwyr eraill yn ôl yr angen (e.e. bFinance)</li></ul>
Pwyllgorau Cronfa Bensiwn	Amllder	Amcan
<ul style="list-style-type: none"><li>Cyfarfodydd Pwyllgor y Cronfeydd Pensiwn unigol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Blynyddol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a mentrau ar y gweill</li><li>James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau</li><li>Alistair Coyle/Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)</li><li>Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau</li><li>Russell Investments</li></ul>

# Cydbwyllgor Llywodraethu PPC - Crynodeb o Berfformiad Ch4 2022


## Sylwadau ar y Farchnad Fyd-eang

Cofnodwyd y chwarter cyntaf cadarnhaol ers blwyddyn gan Fynegai Net y Byd MSCI (World Net Index). Hwn oedd chwarter cryfaf y mynegai ers pedwerydd chwarter 2020. Cafwyd hwb i frwdfrydedd buddsoddwyr yn sgil y disgwyliad y byddai'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn arafach i'r dyfodol a bod data chwyddiant yn fwy meddal nag a ragwelwyd. Fodd bynnag, fe wnaeth yr US Federal Reserve (Fed), Banc Lloegr (BoE) a Banc Canolog Ewrop (ECB) godi cyfraddau yn ôl y disgwyl y chwarter hwn. Cafwyd dibriasiad yng ngwerth doler yr UD (USD) dros y chwarter, mewn cyferbyniad i'r perfformiad cryf yn 2022. Cafwyd tanberfformiad gan ecwitis yr UD o gymharu â marchnadoedd eraill mewn cyfnod gwannach ar gyfer stociau twf cap mawr a doler yr UD. Yn Ardal yr Ewro, bu galw am stociau gwerth. Yn ogystal, cafodd rhagolygon twf y banc canolog ar gyfer 2023 eu hisraddio, ond gwithwyd eu disgwyliadau ar gyfer 2024 yn uwch. Yn y DU, bu gwelliant yn amodau'r farchnad ar ôl i gyn-Ganghellor y Trysorlys, Rishi Sunak, ddod yn arweinydd y blaidd Geidwadol a Phrif Weinidog newydd y DU. Yr oedd Marchnadoedd Datblygol ychydig y tu ôl i ecwiti byd-eang.

## Perfformiad dosbarth ased – y Chwarter hyd Heddiw (Rhagfyr) 2022



## Perfformiad dosbarth ased – y Flwyddyn hyd Heddiw (Rhagfyr) 2022



Meincnodau : Global equity hedged (MSCI World ACWI), UK equity (FTSE All Share), US equity hedged (Russell 1000 Net GBPH), Europe ex UK equity (MSCI Europe ex UK Equity Net GBPH), Japan equity (TOPIX Net GBPH), Emerging equity (MSCI Emerging Markets Net), Global HY bonds (BofAML Global High Yield 2% Constrained Index), EMD LC (JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index), Global credit hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index), Global aggregate hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Bond Index GBPH), UK Government Bonds (ICEBofAML UK Gilts All Stocks (GB), Property hedged (FTSEEPRA Nareit Dev Re GBP)

## Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	2.17	-4.14	10.47
Net	2.10	-4.39	10.18
MSCI AC World Index Net	1.86	-8.08	8.89
Gwarged enillion (gros)	0.31	3.94	1.58

Dyddiad Cychwyn: COB 14 Chwefror 2019

Ffynhonnell: Russell Investments fel ar 31 Rhagfyr 2022

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

O ran perfformiad ffactor, bu'r galw uchaf am stociau gwerth cap mawr y chwarter hwn. Mewn cyferbyniad, stociau twf cap mawr oedd y perfformwyr gwanaf. Yn gyffredinol, bu perfformiodd gwerth yn llawer gwell na thwf, gan ymestyn cyfnod perfformiad gwan twf yn 2022. Yn ystod y chwarter, cafwyd gwell perfformiad gan stociau cap bach na stociau cap mawr, er eu bod ychydig y tu ôl o ran y cyfanswm ar gyfer 2022. Hefyd cafwyd perfformiad uchel gan Momentwm yn ystod y cyfnod hwn. Cafwyd perfformiad sylweddol uwch gan y rheolwr twf Ewropeaidd SW Mitchell, wedi'i ddilyn gan Sanders oedd wedi manteisio o'i ffocws gwerth byd-eang. Mewn cymhariaeth, bu lleihad yn Morgan Stanley, wedi'i gosbi gan ei ffocws ar dwf. Cafwyd tanberfformiad hefyd gan Nissay, Jacobs Levy a Numeric (craidd) yn y chwarter, ond i raddau llai.

## Cronfa Dwf Ecwiti Byd-eang:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
<b>Gros</b>	3.57	-10.46	8.51
<b>Net</b>	3.47	-10.80	8.09
<b>MSCI AC World Index Net</b>	1.86	-8.08	9.23
<b>Gwarged enillion (gros)</b>	1.71	-2.38	-0.73

Dyddiad Cychwyn: 6 Chwefror 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Rhagfyr 2022

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Ar ôl blwyddyn anodd iawn i ecwiti, bu adferiad yn y marchnadoedd stoc byd-eang yn Ch4. Prif yrrwr yr adferiad oedd y disgwyliadau bod chwyddiant byd-eang wedi pasio'i anterth ac y byddai'n dechrau gostwng yn 2023 a bod y banciau canolog yn llawer agosach at ddiwedd eu cylchdro tynhau. Arweiniodd y llacio annisgwyl ym mholisi sero-Covid Tsieina hefyd at hybu enillion.

Perfformiodd y Gronfa yn well na'i meincnod yn Ch4 gan godi 3.47% net o'r ffioedd o gymharu â'r meincnod o 1.86%. Parhaodd gwerth i berfformio'n well na thwf yn Ch4, a'r prif gyfrannwr at y perfformiad oedd daliad y gronfa yn rheolwr gwerth Pzena, a welodd gynnydd yn rhannol o ganlyniad i'w ddaliadau mewn sectorau sy'n cael eu gyrru gan werth, megis ynni, ariannol a deunyddiau. Cafodd perfformiad cryf Pzena ei wrthbwyso gan danberfformiad gan Baillie Gifford a Veritas. O safbwynt daearyddol gwelwyd cynnydd yn y pedwerydd chwarter o berfformiadau rhanbarthol cryf yn yr UD, Ffrainc a'r DU.

Wrth symud i 2023 mae'r rhagolygon ar gyfer ecwiti byd-eang yn parhau'n gymysg, a disgwylir i'r anwadalrwydd barhau gydol y flwyddyn gyda'r tensiynau o ran a fydd ymdrechion y banciau canolog byd-eang i sefydlogi economïau yn ddigonol i dawelu chwyddiant heb greu dirwasgiad byd-eang.



## Sylwadau ar y Farchnad Ddatblygol (EM)

Roedd Mynegai Marchnadoedd Datblygol (EM) MSCI ychydig y tu ôl i ecwiti byd-eang yn ystod chwarter olaf 2022. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan fuddsoddwyr i'r datblygiadau yn Tsieina, wrth i'r wlad lacio'r cyfyngiadau Covid Ilym. Bu mwy o frwdfrydedd gan fuddsoddwyr o ganlyniad i'r rhagolygon y bydd cynnydd arafach mewn cyfraddau llog mewn marchnadoedd datblygedig i'r dyfodol, a bod y data chwyddiant yn fwy meddal na'r disgwyl. Yn wahanol i'w berfformiad cryf yn 2022, bu dibrisiad yng ngwerth doler yr UD dros y chwarter, oedd yn ôl-wynt pellach. Cafwyd enillion cryf yn Ne Corea, ond gorffennodd y flwyddyn mewn tiriogaeth negyddol. Mewn lleoedd eraill, ym manc canolog Ne Affrica gwelwyd cynnydd yn y cyfraddau o 75 bps i 7.0% yn ôl y disgwyl. Gorffennodd Brasil flwyddyn gadarnhaol gydag enillion o 2.4% y chwarter hwn. Bu'r cyn-arlywydd ac ymgeisydd Plaid y Gweithwyr, Luiz Inácio Lula da Silva, yn fuddugol o drwch blewyn yn erbyn deilydd y swydd, Jair Bolsonaro, yn ail rownd yr etholiad Arlywyddol

## Cronfa Cyfleoedd Ecwiti EM:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
<b>Gros</b>	1.63	-11.23	-10.47
<b>Net</b>	1.54	-11.53	-10.78
<b>MSCI Emerging Market Index</b>	1.80	-10.02	-9.47
<b>Gwarged enillion (gros)</b>	-0.18	-1.21	-1.00

Dyddiad Cychwyn: COB 20 Hydref 2021

Ffynhonnell: Russell Investments fel ar 31 Rhagfyr 2022

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu tuedd y Gronfa tuag at ddethol stociau gwerth yn effeithiol yn gyfraniad cadarnhaol. Yn wahanol i'r perfformiad yn gynnar yn y flwyddyn, cafwyd cyfraniad cadarnhaol gan danbwysau i India, Saudi Arabia a Qatar yn ystod y cyfnod. Roedd tanbrisiad i Tsieina yn negyddol, er bod amlygiad i stociau wedi'u lleoli yn Hong Kong ac effeithiau'r dethol effeithiol yn gyfraniad cadarnhaol. Yn ogystal, gwobrwywyd dewisiadau ym Mecsico, y sectorau ariannol (banciau) a deunyddiau (metalau a mwyngloddio). Bu i'r gorbwysau a'r detholiad o fewn Brasil a'r detholiad o fewn Taiwan bwysu ar berfformiad.

## Sylwadau ar Farchnad y DU

Cofnododd FTSE All Shares Index - Total Returns enillion cadarnhaol yn y chwarter olaf. Gwellodd amodau'r farchnad o'r trydydd chwarter negyddol ac anwadal. Daeth cyn-Ganghellor y Trysorlys, Rishi Sunak, yn arweinydd y blaid Geidwadol a Phrif Weinidog newydd y DU. Dilynodd hyn ymddiswyddiad Liz Truss fel arweinydd ar ôl cyfnod cythryblus. Fodd bynnag, cyhoeddodd y Canghellor newydd, Jeremy Hunt, bolisiau ariannol cyfyngol yn Natganiad yr Hydref – mewn cyferbyniad llwyr i "gynllun twf" y weinyddiaeth flaenorol. Cynyddodd Banc Lloegr gyfraddau ddwy waith, gan gynnwys ei gynnydd mwyaf mewn cyfraddau mewn tri degawd ym mis Tachwedd (+75 pwynt sail). Nododd pwyllgor gosod cyfraddau y banc canolog ei bod yn debygol y byddai angen sawl cynnydd eto yn y dyfodol, er waetha'r rhybudd y byddai economi'r DU yn debygol o orfod wynebu cyfngiad economaidd dwy-flynedd "hynod o heriol".

## Cronfa Cyfleoedd Ecwiti'r DU:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
<b>Gros</b>	11.03	-7.33	2.14
<b>Net</b>	10.92	-7.65	1.73
<b>FTSE All Share</b>	8.90	0.34	3.93
<b>Gwarged enillion (gros)</b>	2.13	-7.67	-1.79

Dyddiad Cychwyn: COB 11 Hydref 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Rhagfyr 2022

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

O ran perfformiad ffactor, cafwyd yr arenillion cryfaf o'r stociau cynnyrch-difidend uchel y chwarter hwn, gyda'r stociau bach a chyfalafu canolig yn perfformio'n well na'r capiau mawr. Perfformiodd gwerth yn well na thwf yn ystod y chwarter, gan ymestyn ei berfformiad cadarnhaol yn 2022. Yn y sectorau, cafwyd yr enillion absoliwt mwyaf gan ddeunyddiau sylfaenol a gofal iechyd, wedi'u dilyn gan y sector dewisol defnyddwyr.

Telegyfathrebu oedd yr unig sector i gynhyrchu enillion negatif absoliwt ar gyfer y chwarter. O fewn yr amgylchedd hwn, roedd gorbwysau'r Gronfa i gapiau bach yn fuddiol. Cyfrannodd y dewis o gyfranddaliadau o fewn y sectorau ariannol a phrif gynnyrch defnyddwyr at yr enillion cadarnhaol. Cynhyrchwyd enillion cymharol gadarnhaol o gymharu â'r meincnod gan yr holl reolwyr gyda'r eithriad o Baillie Gifford. Arweiniodd Ninety One yr uwch-berfformiad, wedi'i ddilyn gan Liontrust.

## Sylwadau ar y Farchnad Incwm Sefydlog

Daeth Mynegai Bond Agregau Byd-eang Bloomberg (USDH) â'r flwyddyn negyddol i ben gydag enillion cadarnhaol yn y pedwerydd chwarter. Parhaodd buddsoddwyr i asesu llwybr cyfraddau llog yn y dyfodol yng nghyd-destun y disgwyliad am arafu byd-eang. Fe wnaeth yr US Federal Reserve (Fed), Banc Lloegr (BoE) a Banc Canolog Ewrop (ECB) godi cyfraddau yn ôl y disgwyl y chwarter hwn. Roedd gwneuthurwyr polisi yn rhagweld y byddai'r cyfraddau'n parhau i gynyddu er mwyn mynd i'r afael â chwyddiant uchel. Fodd bynnag, bu mwy o frwdfrydedd gan fuddsoddwyr o ganlyniad i'r disgwyliad y byddai'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn arafach i'r dyfodol, a bod y data chwyddiant yn fwy meddal nag a ragwelwyd. Yn yr UD, cynyddodd y Fed ei gyfradd llog meincnod o 75 pwynt sail (bps) a 50 bps, yn y drefn honno, i orffen y flwyddyn ar gyfradd o 4.5%. Nododd Cadeirydd y Fed, Jerome Powell, y byddai'r cynnydd mewn cyfraddau yn debygol o gymedroli wrth symud ymlaen. Yn Ardal yr Ewro, cynyddwyd cyfraddau ddwywaith gan yr ECB i orffen y flwyddyn ar gyfradd o 2.5% – y lefel uchaf ers 2009. Yn Japan, cafwyd cynnydd arwyddocaol yn yr arenillion meincnod 10-mllynedd o 18 bps i 0.42%.

## Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	1.85	-10.76	-4.89
Net	1.78	-11.00	-5.12
FTSE World Gvt Bond Index (GBP Hedged)	-0.62	-13.76	-6.82
Gwarged enillion (gros)	2.47	3.00	1.93

Dyddiad Cychwyn: COB 19 Awst 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Rhagfyr 2022

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa berfformio'n llawer well na'r enillion meincnod negyddol y chwarter hwn gyda'r ddau reolwr gwaelodol yn perfformio'n uwch. Roedd amlygiad y Gronfa i giltiau byr yn y DU yn gynnar yn y cyfnod yn gweddu i amgylchedd y farchnad. Yn ogystal, gwobrwywyd tanbwysau i Japan a hyd craidd Ewropeaidd mewn cyfnod lle y bu i arenillion gynyddu.

## Cronfa Credyd Byd-Eang:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	3.14	-15.91	-6.09
Net	3.09	-16.06	-6.25
Bloomberg Barclays Global Agg Credit Index (GBP Hedged)	2.43	-15.34	-6.48
Gwarged enillion (gros)	0.71	-0.58	0.39

Dyddiad Cychwyn: COB 20 Awst 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Rhagfyr 2022

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Roedd amlygiad troswysau'r Gronfa i gredyd Enillion Uchel (HY) ac IG Ewropeaidd yn yrrwr cadarnhaol y chwarter hwn. Yn ogystal, gwobrwywyd troswysau i HY yr UD er cafodd ei liniaru rywfaint gan sefyllfa danbwysau i gredyd IG yr UD. Yn wahanol i'r chwarter blaenorol, roedd safle EMD y Gronfa yn pwysu ar enillion yn y cyfnod hwn.

### Cronfa Credyd Aml-ased:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	4.28	-12.49	-2.22
Net	4.17	-12.74	-2.56
3 Month GBP Sonia + 4%	1.69	5.47	4.65

Targed Perfformiad yw 3 Month GBP Sonia + 4%, nid ydym wedi dangos y gwarged enillion gan mai targed yw hwn.

Dyddiad Cychwyn: COB 11 Awst 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Rhagfyr 2022

#### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Cynyddodd marchnadoedd credyd byd-eang fel rhan o frwdfrydedd ehangach gan fuddsoddwyr am asedau risg. Yr oedd hyn yn fwyaf amlwg yn Ewrop tra bod arenillion uchel yr UD hefyd wedi tynhau ar gyfer y chwarter, er iddo ledu ym mis Rhagfyr. Tynhaodd taeniad credyd gradd buddsoddi byd-eang ar raddfa lai mewn cymhariaeth. Manteisiodd ddyledion y farchnad ddatblygol (EMD) ar wendid doler yr UD (USD) a'r disgwyliad y byddai'r tynhau polisi yn arafu mewn gwledydd marchnadoedd datblygol. Bu i'r holl reolwyr gwaelodol gofnodi enillion absoliwt positif, gyda'r arbenigwr benthyciadau ICG ac arbenigwr EMD Man GLG yn perfformio'n dda.

### Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	1.67	2.55	1.87
Net	1.56	2.42	1.56
3 Month GBP SONIA + 2%	1.20	3.44	2.67

Targed Perfformiad yw 3 Month GBP Sonia + 2%, nid ydym wedi dangos y gwarged enillion gan mai targed yw hwn.

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Medi 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Rhagfyr 2022

#### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu safle credyd gradd buddsoddi yn gyfrannwr allweddol yn ystod y cyfnod mewn amgylchedd cadarnhaol i'r duedd tuag at gredyd Ewropeaidd. Parhaodd amlygiad hyd yn bositif drwy safle hyd byr i fondiau'r Almaen 5-mllynedd, UD 10-mllynedd a Japan 10-mllynedd. Yn wahanol i'r chwarter blaenorol, cafwyd cyfraniadau cadarnhaol hefyd gan strategaethau rhagdal. Gwobrwywyd amlygiad hir i sail morgeisi mewn cyfnod lle bu'r taeniad yn tynhau. Cafodd strategaethau macro hefyd effaith gadarnhaol.

## Cronfa Credyd Sterling:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	6.46	-16.39	-6.61
Net	6.43	-16.50	-6.73
ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling Index plus 0.65%	6.38	-17.10	-7.14

Targed Perfformiad yw ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling Index plws 0.65%. Nid ydym wedi dangos y gwarged enillion gan mai targed yw hwn.

Dyddiad Cychwyn: COB 19 Awst 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Rhagfyr 2022

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Gwelodd y Gronfa enillion cadarnhaol o 6.46% gros ym mhedwerydd chwarter 2022.

Mae'r gronfa'n agored yn bennaf i wledydd Gorllewinol, yn bennaf yr UD (~13%), y DU (~38%), ac UE (~29%) gyda bondiau corfforaethol IG a HY mewn GDP a'r enillion bondiau wedi cael eu heffeithio gan chwyddiant, polisïau ariannol gan fanciau canolog y rhanbarthau hyn a phrisïau ynni yn sgil y rhyfel yn Wcráin.

Bu perfformiad y farchnad bondiau yn y tri chwarter cyntaf ar ei waethaf ers argyfwng 2008 o ganlyniad i gynnydd sydyn yn arenillion y llywodraeth a'r taeniad credyd yn lledu o ganlyniad i'r cynnydd mewn chwyddiant, y cynnydd beiddgar mewn cyfraddau llog gan fanciau canolog a'r risg uchel o ddirwasgiad. Yn ystod y cyfnod cynyddodd arenillion y giltiau 10-mlynedd o tua 3.9%, lledodd taeniad credyd IG a HY o tua 79 bps a 212 bps yn y drefn honno.

I'r gwrthwyneb, yn y pedwerydd chwarter, cefnogwyd y farchnad bondiau gan chwyddiant arafach, llai o gynnydd mewn prisïau ynni, banciau canolog yn arafu'r cynnydd mewn cyfraddau llog ac economïau'r gorllewin yn fwy gwydn na'r disgwyl. O ganlyniad, gostyngodd arenillion y Giltiau 10-mlynedd o tua 46bps, tynhaodd taeniad credyd IG a HY byd-eang o tua 28 bps a 73 bps, yn y drefn honno, sy'n esbonio enillion positif y gronfa o 6.46% dros y pedwerydd chwarter. Yn anffodus, nid oedd enillion positif y pedwerydd chwarter yn ddigonol i wrthbwysu'r enillion negyddol cryf a gynhyrchwyd yn y tri chwarter cyntaf, a safle terfynol y gronfa ar ddiwedd y flwyddyn oedd perfformiad negyddol o 16.39% gros.

# Eitem 11

<b>Cyfeirnod:</b>	Pwyllgor Pensiynau
<b>Dyddiad:</b>	26/06/2023
<b>Teitl:</b>	FFACTORAU COST STRAEN YMDDEOLIAD CYNNAR Y GRONFA BENSIWN
<b>Awdur:</b>	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
<b>Pwrpas:</b>	Derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor i ddefnyddio'r ffactorau newydd
<b>Argymhelliad:</b>	Cymeradwyo defnyddio'r ffactorau newydd

## 1. Cyflwyniad

Pan fydd gweithiwr yn gadael ar sail ddiswyddiad/effeithlonrwydd busnes ac yn 55 oed a throsodd (57 oed a hŷn o 6/4/2028), mae gan yr aelod hawl i gael taliad ar unwaith o'i fuddion pensiwn heb eu lleihau.

O ganlyniad i'r buddion hyn cael eu talu'n gynharach na'r oedran pensiwn arferol, mae cost straen ymddeoliad cynnar yn daladwy gan y cyflogwr i'r gronfa bensiwn.

Mae cyfrifiad y gost yn seiliedig ar:

- Oedran yr aelod
- Hyd aelodaeth yn y cynllun
- Tâl
- Hyd yr amser hyd at ei Oedran Pensiwn Arferol, a
- Ffactorau a gynhyrchwyd gan actiwari'r Gronfa.

Yn dilyn cwblhau proses prisiad, mae actiwari'r Gronfa wedi bod yn adolygu'r ffactorau cost straen ymddeoliad cynnar a ddefnyddir. Gweler yr atodiad am yr adroddiad llawn.

## 2. Ffactorau newydd

Mae Hymans yn argymhell bod ffactorau cyfredol y Gronfa yn cael eu disodli gan y rhai a ddangosir isod:

